# Y BIGWN

CYF. 31 RHIF 2 EBRILL 2019 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*

## Dinbych yn Blodeuo!



(Tud 11)






Angharad a'i Chwilt (Tud 15)




Enillwyr Cystadleuaeth Ffenestri Siopau Dinbych Dydd Gŵyl Dewi **Siop Reebees (Tud 13)**




Pythefnos Masnach Deg (Tud 9)



Ble mae hwn? Beth ydy o? (Tud 26)

**Oherwydd Gwyliau'r Pasg, mae angen i BOB DIM fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn yn y Llyfrgell erbyn HANNER DYDD, dydd Iau, Ebrill 18, neu os oes modd, drwy ebost i ybigwn@hotmail.co.uk - Ar Werth Mai 4ydd, 2019**





Ifan Wood 5 Oed



Alaw Gwyn Elis 10 Oed



Gwen Alaw Elis 5 Oed



Llongyfarchiadau i Doctor Guto Glyn Rhys oddi wrth y teulu oll ar dderbyn doethuriaeth mewn Cemeg o Brifysgol Bryste. Diolch i'r addysg a gafodd yn Ysgol Twm o'r Nant ac Ysgol Glan Clwyd.



Elysa Haf Morgan 7 Oed




Penblwydd Hapus iti Jac yn 6 oed ar Ebrill 22. Llawer o gariad gan Dad, Mam ac Elysa, Naini Taidi, a Taid a Nain Bici xx



Llongyfarchiadau i Nia a Sam Lôn y Post ar enedigaeth eu merch fach Elen Wyn ar 19 Chwefror 2019. Wyres gyntaf i John Geraint ac Eiri, Glain a'r diweddar Peter, a Dei Rich. Gorwyres i Ceinwen Jones.



Disgyblion Ysgol Glan Clwyd ar Arfordir Amalfi (Tud 24)

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**- Stan Lyall 813659**
**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones 01745 812214
russelljones9 @talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
Bryn Llys, 10 Llain y Capel
Dinbych LL16 3TU
01745 814497
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

# Gair gan y Golygydd

Dwi wedi drysu braidd, achos wrth i mi ddechrau sgwennu'r Golofn Olygyddol hon rydym yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd, a does gen i ddim syniad ble fyddwn ni pan fyddwch chi'n ei darllen. Ac yn wir, wrth i mi orffen sgwennu hwn yn barod i fynd i'r wasg, mae'r sefyllfa wedi newid sawl gwaith yn ddyddiol, os nad o awr i awr. Dwi'n cyfaddef fod gen i ddim clem be' aflwydd sy'n mynd ymlaen, er bydd oblygiadau pellgyrhaeddol i bob un ohonom. Ond rwy'n sicr o un peth. Mae nifer helaeth o'n gwleidyddion, ar bob ochr o'r ddadl (ac mae llawer iawn mwy na dwy ochr i Brexit!) wedi ein gadael i lawr. Does gen i ddim cof, er enghraifft, o neb yn cyfeirio at y problemau dyrys all godi ynglŷn â'r ffin rhwng Gogledd Iwerddon a'r Weriniaeth yn dilyn Brexit. Llanast llwyr! Byddwch yn falch o gael gwybod fod gen i ddim bwriad, am nifer o wahanol resymau, i geisio dadansoddi'r sefyllfa, ond ...

Ychydig flynyddoedd yn ôl cawsom y pleser o ymweld â dinas hardd Strasbourg, yn Alsace, Gogledd Ddwyrain Ffrainc. Mae'r ddinas a'r ardal wedi bod yn achos sawl rhyfel dros y canrifoedd. Bu'n Ddinas Rydd tan 1681, pan ddaeth yn rhan o Ffrainc. Ym 1871, yn dilyn rhyfel, daeth yn ddinas Almaenig tan ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, pan aeth yn ôl i feddiant Ffrainc. Ond yn ystod yr Ail Ryfel Byd, daeth dan reolaeth yr Almaenwyr rhwng 1940-44. Byth ers hynny mae wedi bod unwaith eto yn rhan o Ffrainc, ac erbyn hyn mae pencadlys Cyngor Ewrop yn y ddinas yn ogystal â Llys Hawliau Dynol Ewrop a Senedd Ewrop. Rhaid oedd gofyn beth yw cost yr adeiladau moethus a'r holl fiwrocratiaeth?

Yn ystod ein hymweliad aethom am dro i barc ar gyrion y ddinas, Le Jardin des Deux Rives (Gardd y Ddwy Lan). Mae ar lan yr Afon Rhine, sef y ffin presennol rhwng Ffrainc a'r Almaen. Mae'n bosib cerdded dros y bont o un wlad i'r llall, ac roedd cannoedd o bobl yn gwneud hyn,a braf oedd gweld teuluoedd yn mwynhau picnic a chlywed nifer o ieithoedd gwahanol. Ar ddwy ochr yr afon, ddim yn bell o'r bont, mae dwy gofeb i gofio am y rhai a ddienyddwyd gan y Gestapo a'i taflu i mewn i'r afon ar Dachwedd 23$^{ain}$ 1944, diwrnod "Libération" Strasbourg. Mae nifer o gofebau tebyg drwy'r ddinas. Rhaid oedd gofyn beth oedd y gost?

****************************

Cefais sioc ychydig yn ôl o sylweddoli 'mod i wedi bod yn golygu'r Bigwn ers deunaw mlynedd. Yn ôl yr ystrydeb, cewch lai am lofruddio rhywun! Ond rwyf wedi penderfynnu fod deunaw mlynedd yn ddigon i mi, ac yn sicr i'r darllenwyr. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi bod mor gefnogol dros y blynyddoedd – fy nghyd-Olygyddion, y teipyddion, y cyfranwyr sydd wedi bod mor fodlon i rannu hanesion hynod ddiddorol, Swyddogion Y Bigwn ac, wrth gwrs, Hywel.

Rydym bob amser yn awyddus iawn i dderbyn chwistrelliad o waed newydd i'r Bigwn, felly os oes gennych awydd i gyfrannu syniadau newydd a bod yn rhan o'r tîm, byddwn yn hynod falch o glywed gennych.

Cofiwch hefyd fod gan Y Bigwn wefan ei hun erbyn hyn, diolch yn bennaf i Dyfrig Berry. Mae hwn i'w weld ar https://ybigwn.cymru/index.php ac yn profi ein bod yn symud yn araf bach i'r 21$^{ain}$ Ganrif!

*John Davies*

## BAG Y BIGWN

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

| | |
|---|---|
| Maldwyn Evans | £ 5.00 |
| Dafydd ac Alwena Williams | £ 5.00 |
| Beti Jones, Trewen | £ 5.00 |
| Gareth a Nerys Morgan | £ 5.00 |
| Eiri a John Geraint | £ 5.00 |
| Richard ac Eira Denman | £10.00 |
| Helena ac Elfed Williams | £15.00 |
| Gwenda a Dewi Owens | £15.00 |
| Di-enw | £15.00 |
| Alun a Lilian Jones | £20.00 |

## Golygydd Mis Mai:
## MORGAN CORDINER

## Dyddiadur

Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron a'r Brwcws
**Nos Lun, Ebrill 8fed.**
'Twrio rhwng Tudalennau a Chwis' yng ngofal Dafydd Timothy yn festri Capel y Fron am 7yh.
Croeso cynnes i bawb.

**Nos Iau Ebrill 11$^{eg}$ am 7.00**
**APÊL MADAGASCAR**
Noson Cawl a Cwis yn Festri Capel Lôn Swan. Tocynnau ar gael am £5.00 o flaen llaw gan Aelodau'r Eglwys. Croeso cynnes i bawb.

**Nos Wener, Mehefin 21ain. am 7yh**
Noson Goffi a Hwyl
yn Ysgol Llanrhaeadr
MENCAP Dinbych a Rhuthun

# Y Capeli

## CAPEL BRWCWS.

Dydd Sul, Chwefror 17eg cynhaliwyd Oedfa'r Fro yng nghapel Gellifor dan ofal y Parch. Andras Iago.
Bore Sul, Chwefror 24ain cawsom Ysgol Sul i'r oedolion.Mr Gwyn Evans oedd cennad y prynhawn. Bryan Roberts oedd yr organydd.Croesawyd Lis Edwards yn ôl yn dilyn ei llawdriniaeth a hefyd Carolyn Thomas ar ôl rhai wythnosau yng ngwres yr haul yn Tenerife.
Croesawyd Maureen Hughes a Grace Roberts atom i Gymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws nos Fercher, Chwefror 27ain.
Cynhaliwyd Dydd Gweddi'r Byd yn y Capel Mawr dydd Gwener, Mawrth 1af. Edna Williams fu yn cynrychioli'r Brwcws.
Dydd Sul, Mawrth 3ydd bu gwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi yn y Capel Mawr. Carolyn Thomas fu yn cymryd rhan i gynrychioli Capel Brwcws.
Nos Lun, Mawrth 4ydd cafwyd Cinio Gŵyl Dewi y Gymdeithas Ddiwylliadol ar y cyd gyda Cymdeithas y Chwiorydd.
Elin Jones gyda hanes llun William Holman Hunt "Goleuni'r Byd" agorodd yr Ysgol Sul, Mawrth 10ed. Cafwyd gweddi gan Gwen.Oedfa Gymun o dan ofal y Parch. Andras Iago a gafwyd y prynhawn. Carolyn Thomas oedd wrth yr offeryn. Croesawyd Eddie Hughes yn ôl yn dilyn salwch.
Dydd Sul,Mawrth 17eg Rhian, Cari a George Cattell fu yn gyfrifol am agor yr Ysgol Sul ar y thema "Goleuni".Y Parch. Alan Spencer fu yn pregethu yn y prynhawn. Carolyn Thomas oedd yr organyddes.

## Capel y Fron



Fore Sul, Chwefror 17eg, cynhaliwyd oedfa'r Fro yn Nghapel Gellifor dan ofal y Parch Andras Iago. Fe waneth Mrs Wendy Lloyd Jones, Llywydd y mis, estyn croeso i Mr Gwyn Evans, Llysfaen atom ac yn ysotd y gwasanaeth fe wnaeth longyfarch Nia a Sam ar enedigaeth eu merch, Elen Wyn ac hefyd i John Geraint ac Eiri ar ddod yn Daid a Nain i Elen. Ar nodyn trist, fe wnaeth gydymdeimlo â Gwenda Owens yn ei phrofedigaeth. Yr oedd gwasanaeth Gŵyl Dewi Undebol yn y Capel Mawr, fore Sul Mawrth 3ydd ac fe wnaeth Mrs Wendy Jones gymeryd rhan. Fe gawsom gyfraniad teilwng iawn gan Llinos Mary Jones, Gwyddelwern ac yna fe gawsom wasanaeth Huw Vaughan Jones yn yr hwyr. Yr oedd yr oedfa Gymun fore Sul, Mawrth 10fed dan ofal y Parch Andras Iago a'r organyddes oedd Iona Edwards. Ar nos Sul, Mawrth 17fed, fe ddaeth y Parch Alun Spencer, Bae Colwyn, atom a'r organyddes i'r gwasanaeth oedd Mrs Eiri Jones.

## Y CAPEL MAWR A SEION

Tro'r Capel Mawr oedd hi eleni i gynnal oedfa undebol Gŵyl Ddewi ar gyfer eglwysi'r dref, ac yr oedd cynulleidfa deilwng wedi ymgynnull ar gyfer yr achlysur ar fore'r trydydd o Fawrth. Cyflwynwyd y rhannau defosiynol gan gynrychiolwyr o Lôn Swan, Pendref, Y Fron, Y Brwcws a'r Santes Fair yn ogystal â Gaynor Morgan Rees ac Angharad Rhys ar ran Y Capel Mawr. Cafwyd anerchiad bwrpasol ar gyfer dydd ein nawdd sant gan Miss Llinos Mary Jones, Gwyddelwern. Mrs Dorothy Rogers oedd wrth yr organ. Diolchwyd iddynt oll gan Mr Stan Lyall, llywydd y mis.

Cafwyd cwmni'r Gweinidog ar gyfer yr oedfa hwyrol y Sul canlynol. Croesawyd ef gan Mr Gwilym Luke Jones. Mrs Catrin Warren oedd wrth yr organ. Cyflwynwyd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd gan nifer o chwiorydd Y Capel Mawr a'r Fron yn yr oedfa foreol ar Fawrth 17eg. Mrs Nerys Ann Roberts oedd wedi cydlynu'r cyfan. Ffrwyth llafur merched Slofenia oedd y gwasanaeth.
Mrs Dorothy Rogers oedd y cyfeilydd.

## Aelwyd Capel Mawr

Dechreuwyd Aelwyd mis Chwefror gan Mair Jones yn darllen cerdd R. Williams Parry "Clychau'r Gog"
Y gŵr gwadd oedd Doctor Goronwy Wynne, a chroesawyd ef gan Helena Williams. Mae'n dod o Sir Fflint ac wedi ennill Llyfr y Flwyddyn gyda'i lyfr "Blodau Cymru Byd y Planhigion" yn y flwyddyn 2018.
Cawsom glasur o ddarlith arbennig o ddiddorol. Mae'r gyfrol yn un swmpus ac yn cynnwys llawer mwy na disgrifad o'r planhigion. Mae'n trafod pethau fel cynefin, ac mae'n addysgiadol iawn. Mae pennod am bob sir, ac yn amlwg roedd llawer o waith ymchwil.
Diolchwyd iddo ac i bawb fu'n paratoi te Gŵyl Ddewi gan Ronwy Rogers.
Ym mis Mawrth dechreuwyd y cyfarfod gan Rhiannon Wynne, darllenodd dair cerdd gan R.H. Jones a oedd yn byw ger Pentrellyncymer dros gan mlynedd yn ôl. Y tair yn addas, gan mai am fro Hiraethog roedd ein siaradwr gwadd yn siarad.
Croesawyd Mr Alun Williams, Trefnant, yn ôl atom gan Helena Williams. Mae "naturiaethwr ymroddedig" yn ddisgrifiad da iawn ohono. Y tro hwn roedd yn sôn am natur ym Mro Hiraethog, a llawer o'n haelodau â chysylltiad â'r Fro.
Cawsom ein synnu gan yr amrywiaeth eang o anifeiliaid, pryfetach ac adar yn y rhan hon o'r wlad, ardal lom ond yn gynefin i gymaint o greaduriaid gwyllt. Roedd y lluniau ar y sgrin yn arbennig o dda, roedd wedi llwyddo i ddal natur yr holl adar ac anifeiliaid.
Diolchwyd iddo ef ac i Carys Jones a Dorothy Bartley am baratoi paned gan Mair.

**Dymunwyd penblwydd hapus i Mrs Phyllis Lloyd ar gyrraedd 90 mlwydd oed ar Fawrth 28ain.**

Mae rhai o'n aelodau yn wael ar hyn o bryd a dymunwn y gorau iddynt.

# Y Cymdeithasau



Stan ac Ann



David Mawdsley, a John Davies

## Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron a'r Brwcws

Stan Lyall oedd y gŵr gwadd yn ein Cinio Gŵyl Ddewi ac "Y busnes sgwennu 'ma" oedd testun ei sgwrs. Mae Stan wedi mwynhau sgwennu ers dyddiau ysgol a bu'n ohebydd ar staff yr Herald cyn mentro i'r byd addysg.

Yn ei sgwrs, canolbwyntiodd Stan ar ei golofn bob mis yn y Bigwn. Mae'n cychwyn ei golofn gan sôn amdano'i hun ac yn cael hwyl ar ei ben ei hun cyn rhoi ei farn a gwneud sylw fel yn, "Dim L ar gyfyl y lle!"(Bigwn Mai 2017). Yma mae'n codi cywilydd ar Ann, ei wraig, mewn siop adnabyddus ym Mhrestatyn ac yn cael ei drin yn anghwrtais gan aelod o'r staff wrth iddo chwilio am ddilledyn arbennig. Darllenwch yr holl hanes!

Yn "Watsia di dy hun….." mae Stan yn cyfaddef nad yw'n gallu canu mewn tiwn yn dilyn profiad anffodus yn Ysgol Bethel ers talwm."Dad, ti ydy'r unig un sy'n gallu canu mewn sawl cyweirnod ar yr un pryd," meddai aelod o'r teulu wrtho. Yna cawn farn Stan ar hen ganeuon sy'n cael eu hatgyfodi fel "Watsia di dy hun."

Cawsom sawl cyfaddefiad gan Stan yn ystod ei sgwrs. Un ohonynt yw ei fod yn hoff iawn o wisgo tei!

Bu'n noson hwyliog a chartrefol gyda digon o chwerthin yn enwedig pan ddywedodd dynes wrtho, unwaith, mewn maes parcio,"Chill out, old man."

Mae Stan yn ein hannog i gyd i **brynu'r** Bigwn – mae'n rhad iawn am 50c!

Llywyddwyd y noson ac fe dalwyd y diolchiadau gan Pamela Lloyd.

Wendy a'i thîm, gan gynnwys Dafydd, oedd yn gyfrifol am baratoi'r lluniaeth.

## .Cymdeithas Caledfryn

David Mawdsley, cyfreithiwr ym maes yswiriant llongau oedd gŵr gwadd mis Chwefror a 'Llongau a'r Gyfraith'oedd testun ei sgwrs. Lerpwl oedd ei fan geni. Ymddeolodd yn 2004 ac mae'n byw ym Modffari. Mae David wedi dysgu Cymraeg ac ymysg ei ddiddordebau mae cerddoriaeth, cerdded, rheilffyrdd a llongau!

Astudiodd y Gyfraith yn y brifysgol ac er nad oedd ganddo brofiad o'r môr, aeth i weithio i gwmni bychan o gyfreithwyr oedd yn arbenigo yng nghyfraith y môr.

Rhan angenrheidiol o waith David oedd ymweld â llongau lle bu gwrthdrawiad neu ddamwain er mwyn casglu tystiolaeth.

Golygai mwy o amser ar dir sych i'r criw ar adegau wrth i David holi tystion!!

Mae hefyd yn drafftio cytundebau â phorthladdoedd.

Soniodd David am danau ar longau fel yr un ar long ger Sri Lanka pan ddifrodwyd ceir newydd ar bymtheg dec y llong a'r tân hwnnw ar long ym Mrasil lle arbedwyd yr holl gig a oedd yn fwytadwy wedi'r cwbl!

Mae David wedi teithio ymhell efo'i waith fel cyfreithiwr gan gynnwys Nigeria ble bu raid iddo fentro mewn cwch fechan a defnyddio beic modur fel tacsi i gyfweld tystion.

Er iddo ymweld â thua 20 o wledydd tramor, ychydig o'r gwledydd a welodd yn llawn ond bu'n dyst i'r Mardi Gras yn New Orleans a bu gwahoddiadau i sawl lansiad ac i bartion gan gleientiaid.

Er ei fod wedi ymddeol, mae David yn cadw cysylltiad â'r môr gan fod ei fab Gareth sy'n aelod o'r Llynges Brydeinig yn cynrychioli'r awyrlu, y fyddin a'r llynges yn y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD).

Cafwyd sgwrs a sleidiau diddorol gan David – fe ddysgom lawer am y gwaith cyfreithiol pwysig ym myd llongau ond be ddigwyddith i'r cwmniau yswiriant sydd â'u gwreiddiau yn Llundain yn dilyn Brexit?

Cyflwynwyd y gŵr gwadd gan John Davies ac ef a dalodd y diolchiadau. Llongyfarchwyd John Geraint am ddod yn daid i Elen Wyn.



TE YN Y GRUG

Tŷ Te a Delicatessen

Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk

01745 816576

# CYFARFOD CYMDEITHAS GYMRAEG DINBYCH



Mwynhau'r wledd!

Ar Nos Wener, Mawrth 1af, cynhaliwyd Swper Gŵyl Dewi y Gymdeithas Gymraeg yn y Clwb Golff a bu'n ddigwyddiad cofiadwy iawn y tro yma.
Yn gyntaf, daeth Rhys Meirion a chriw o bobl oedd yn gysylltiedig hefo trawsblannu organau atom a chael eu recordio, dan arweiniad Dilwyn Price, yn canu ar gyfer cyfres newydd Rhys fydd ar y teledu yn fuan. Cafodd ambell aelod y cyfle o leisio eu barn ar gamera am y perfformiad.
Wedyn, cawsom fwynhau pryd tri chwrs arbennig - gyda diolch i Carla a chriw arlwyo y clwb golff. Yr oedd hyn ar ôl i Tom Williams, ein trysorydd, ofyn gras bwyd.
Yn anffodus, yr oedd y nodyn am y noson wedi llithro i'r diwrnod anghywir yn nyddiadur ein gwestai arbennig, sef Ieuan ap Siôn. Felly, bu disgwyl a phryderu amdano ond ni ddaeth atom gan ei fod wedi meddwl mai'r noson wedyn yr oedd i fod hefo ni!
Hefyd, yr oedd yr ail westai arbennig,Ann Catrin Evans, gwneuthurwraig y goron at Eisteddfod yr Urdd 2020, sy'n cael ei noddi gennym, hithau yn methu bod hefo ni ac wedi anfon neges yn tynnu yn ôl oherwydd gwaeledd difrifol ei mam. Yr ydym yn anfon ein cofion annwyl ati.
Felly, wedi'r pryd, ceisiodd yr ysgrifennydd, Dilwyn Jones, a'r llywydd, Nerys Ann Roberts, sefyll yn y bwlch. Adroddodd Dilwyn ddetholiad o straeon o'i hanes ei hun o sgwrs sydd ganddo. Yna, cawsom fwynhau gwrando ar Nerys Ann yn canu medli o ganeuon poblogaidd y 1960au a'r 70au.



Nerys Ann

Cyflwynwyd a diolchwyd gan Mair Spencer, yr is-lywydd.
Er colli cwmni y gwesteion arbennig, cawsom noson dda i gloi tymor 2018/19. Ni fu yn dymor rhwydd, hefo nifer o drafferthion yn codi y tro yma, ond edrychwn ymlaen at dymor 2019/20 fydd yn arwain at Eisteddfod yr Urdd.
Bydd pwyllgor tua diwedd Ebrill/dechrau Mai a boreuau coffi wedyn ac yna bydd y tymor newydd yn cychwyn ar Nos Wener gyntaf mis Hydref! Y mae'r flwyddyn yn hedfan yn barod!!
DILWYN JONES - YSG

**"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"**



Rhys Meirion a'r Côr



Rhys Meirion a Dilwyn Price



Dilwyn a Tom

**Garej Ffowndri**
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur
01745 812482



## Cymdeithas Chwiorydd Y Fron a’r Brwcws

Fe gawsom noson gartrefol yn nghwmni Mrs Maureen Hughes a Mrs Grace Roberts, Llanrwst. Testun eu sgwrs oedd ‘Halen a Finegr’. Fe gawsom wybod am rinweddau y ddau at iechyd y corff ac hefyd i lanhau nwyddau yn y tŷ. Yr oedd y ddwy wedi gwneud gwaith ymchwil trwyadl iawn. Braf iawn oedd gweld Liz Edwards ein ysgrifenyddes yn ôl wedi ei llawdriniaeth. Llongyfarchiadau i Gwenda Owens ar ddod yn Nain i Beca Mared ac i Eiri Jones hithau wedi dod yn Nain i Elen Wyn. Y mae amryw o’r chwiorydd wedi cyfarfod â phrofedigaethau ac yr ydydm yn cydymdeimlo â nhw yn fawr iawn. Yr oedd Olwen ac Aledwen wedi paratoi paned ac fe wnaeth Paula dalu’r diolchiadau.

Fe gynhaliwyd Cyfarfod gweddi Chwiorydd Cristnogol y Byd yn Festri Capel Mawr eleni ar ddydd Gwener, Mawrth 1af. Yr oedd y gwasanaeth wedi ei baratoi gan Chwiorydd Cristnogol Slofacia ar y thema ‘Dewch mae popeth yn barod’. Arweinydd y cyfarfod oedd Nerys Ann Roberts gydag aelodau Eglwysi Cymraeg y dre yn cymeryd rhan. Diolch i Olwen Griffiths, Beti Jones, Pamela Lloyd a Wendy Lloyd Jones am gymeryd rhan. Fe gawsom glywed cerddoriaeth o Slofenia gyda’r Parch Nesta Davies yn gyfrifol am yr ochr dechnegol a hithau hefyd wnaeth gyflwyno’r myfyrdod gyda Dorothy Rogers yn cyfeilio i’r emynau. Yna ar ddiwedd y gwadanaeth cawsom gyfle i gymdeithasu gyda’n gilydd dros luniaeth ysgafn oedd wedi ei baratoi gan Chwiorydd Capel Mawr.

Cynhaliwyd Noson Grempog er budd Cymorth Cristnogol nos Fawrth, Mawrth 5ed yn y Fron ac fel gawsom sgwrs gan Anna Jane Evans.

Yr ydym fel Eglwys yn anfon ein cofion at Anne Roberts, Ceri Lloyd Jones a Tom Prytherch, y tri wedi derbyn llawdriniaeth, ac hefyd i’r Parch Eifion Jones.

## Cymdeithas Hanes Lleol Dinbych

Daeth nifer dda o aelodau'r Gymdeithas i'n cyfarfod mis Chwefror a oedd yn ymweliad ag Amgueddfa Dinbych. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd, Richard Snelson, cyn trosglwyddo'r noson i ddwylo medrus Clwyd Wynne a Tony Gray, y ddau, fel y Cadeirydd, yn aelodau o Fwrdd Amgueddfa Dinbych. Ar ôl cyflwyniad o hanes yr adeilad a'r amgueddfa, rhanwyd yr aelodau'n ddau grŵp i gael taith dywysedig, un dan ofal Clwyd a'r llall dan ofal Tony.

Roedd cyfle i weld pob man yn yr Amgueddfa ac i ddysgu rhywfaint am y gwaith ardderchog sy'n mynd ymlaen i geisio sicrhau adnodd tu hwnt o bwysig i dref Dinbych. Soniodd Tony am y casgliadau gan esbonio sut y pendewrfynwyd derbyn neu wrthod eitem a'r drefn o gofnodi popeth sydd yn yr Amgueddfa. Cyfeiriodd hefyd at y problemau a wynebai'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli wrth ymdrechi i reoli lleithder yn yr awyr yn yr hen adeilad ac at waith diflino y Cyng. Gwyneth Kensler, Ysgrifennydd Bwrdd Amgueddfa Dinbych, yn ei hymdrechion i sicrhau statws achrededig a, thrwy hynny, denu grantiau i sicrhau dyfodol Amgueddfa Dinbych.

Cyfeiriodd Clwyd at waith Grŵp Archifau Dinbych, sydd â chanolfan o fewn yr Amgueddfa a dangosodd yr arddangosfeydd parhaol, fel Gwasg Gee ac Ysbyty Gogledd Cymru a'r rhai dros dro fel Dinbych yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i weld yr organ Bellamy a ddaeth o Gapel Wesleiaidd Peniel, Llanelwy. Cafwyd darlith ardderchog ar waith John Bellamy a'i fusnes gwneud organau ar Stryd y Dyffryn gan Mrs Alice Ward, Caerwys yn ein cyfarfod ym mis Ionawr.

Diolchwyd Clwyd a Tony am arwain y noson gan Richard Snelson a diolchodd hefyd i Ceri Ellis, Ysgrifennydd y Gymdeithas am yr holl drefniadau.

## CYMORTH CRISTNOGOL Noson Grempog!

Gawsoch chi Grempog dydd Mawrth y 5ed o Fawrth? Os oeddech chi yng Nghapel y Fron dwi’n gwybod eich bod wedi cael crempog arbennig iawn yng nghwmni’r Guides lleol. Erbyn hyn, mae Noson Grempog Cymorth Cristnogol yn un o uchafbwyntiau’r calendr gweithgareddau pwyllgor Cymorth Cristnogol Dinbych ac yn gyfle i godi £423.00 tuag at waith Cymorth Cristnogol.

Eleni, roedd Anna Jane Evans, Cydlynydd Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn sôn am waith ymgyrchu Cymorth Cristnogol, Ymgyrch y Cam Mawr i daclo Newid Hinsawdd, un o’r problemau mwyaf sy’n wynebu’r blaned. Soniodd am ymrwymiad HSBC i fuddsoddi mewn prosiectau gwyrdd, ond eto’n ariannu cwmnïau sy’n cynnal y diwydiant glo yn Fietnam, Indonesia a Bangladesh. Tair gwlad sy’n hynod o fregus i’r hinsawdd newidiol ond efo potensial mawr i greu ynni adnewyddol.

Cawsom flas hefyd ar Wythnos Cymorth Cristnogol 12 - 18 o Fai 2019. Wyddoch chi mai Sierra Leone yw’r lle peryclaf yn y byd i roi genedigaeth? Mae’r benthyciadau a roddwyd i’r wlad i ymateb i argyfwng Ebola yn 2014 wedi ei llethu gyda dyled gan atal ariannu gofal iechyd.

Gawsoch chi grempog dda, sgwrs efo llond lle o ffrindiau a chyfle i glywed am waith Cymorth Cristnogol? Na? Blwyddyn nesa’ amdani ta!




Waynne a John yn gwneud crempogau

## Dathliad Dewi Sant yn Festri Capel Mawr, Chwefror 23ain

Mi aethon ni i Festri Capel Mawr yn Ninbych ac roedd rhaid i ni weithio'n galed fel gweinyddion di-dâl Nerys Ann.Serch hynny mi oedden ni'n codi arian at elusen i helpu mamau o Syria yng Ngwlad Groeg i brynu cadeiriau gwthio.Felly doedd dim ots ein bod yn gweithio'n ddi-dâl.

Hefyd dathlon ni Gŵyl Dewi Sant efo llawer o fwydydd Cymreig. Roedd na gawl cennin gan Nerys Ann ac roedd o'n flasus iawn, bara brith a chacennau cri. Yn ychwanegol at hyn roedd na fwydydd o bedwar ban byd, o Dwrci o Sbaen ac o Ogledd Affrica.

Mi wnaethon ni fwynhau ein hunain a chodi arian at achos da.

Michael Frimston(Mihangel Hedd)

-----------------------------------

Trefnodd dosbarth Nerys Ann ginio i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Roedd y dosbarth wedi bod yn gweithio ar y thema bwyd a threfnu digwyddiad. Mi wnaeth bob un dysgwr fwyd o wahanol wledydd sef Sigara Borek (Crwst ffilo efo llenwad caws ffeta neu datws a thomato) o Dwrci gan Lynda Baggaloglu dydd wedi dysgu Mathamateg yn Nhwrci am dros 30 mlynedd. Diego sy'n dod yn wreiddiol o Sbaen wedi coginio omled Sbaenaidd ac roedd Nerys Ann wedi paratoi cawl cennin a thatws efo rholiau bara ffres o'r Granar. Yn ogystal cafwyd Brownies siocled, bara brith, cacennau cri, chilli llysieuol efo cous cous ac amrywiol gawsiau Cymreig o Tê yn y Grug.

Gwahoddon ni rhai o staff Canolfan Iaith Clwyd a dysgwyr eraill o ddosbarth Huw Gwyn. Aeth yr elw at elusen sy'n helpu mamau o Syria i brynu bygis a chadeiriau gwthio er mwyn nôl bwyd i'w plant.

Esboniodd y dysgwyr sut i goginio'r bwyd i'r gwesteion. Roedd na gyfle da i ddefnyddio be dan ni wedi ddysgu yn y dosbarth ac i godi arian at achos da ar yr un pryd.

James King (y Brenin Iago)










J. H. & B. JONES

CIGYDD TEULU

Gwerthu PYSGOD hefyd



* Cig cartref
* Cig o ffermydd lleol
* Cig i'r rhewgell


92 Stryd y Dyffryn, Dinbych

01745 812132

Glyn Evans Autoclinic

Atgyweirio Ceir

Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat

* Ceir a 4x4 cwrteisi

* Gwasanaeth Cymraeg

01745 815141

repairs@evansautoclinic.com

## Y Clwb Gosod Blodau

Agorwyd y cyfarfod gan Felicity ac estynnodd groeso cynnes i bawb. Ein harddangoswraig oedd Sylvia Bower o Stockport, a'i thema oedd 'Dipyn o Bopeth', a hi hefyd wnaeth pob un cynhwysydd.

Gwnaeth y gosodiad cyntaf mewn basged a wnaed o ddau gylch a 'styllod. Y tu mewn iddi 'roedd deiliach gywrdd, Gerberas, Latris, a Thegerianau Singapôr yn goferu dros yr ochrau.

Mewn cynhwysydd wedi ei orchuddio â rhisgl y gwnaed yr ail osodiad, Tegeirianau mawr hardd, dail y Red Admiral, Begonias, Rhosod cochion a deiliach gwyrddion.

Fe wnaed y trydydd mewn cynhwysydd anarferol iawn ei siâp o goesau Blodau Haul, dail gwyrddion tal gysa rhosod lliw hufen hyfryd i lawr y canol a 'sbrigyn o Alstermeria a blodau seithliw wedi sychu yn gorchuddio'r bowlen ddŵr.

Gwnaed gwaelod y bedwerydd gosodiad o gonau Llarwydden a rhoed hen wreiddiau o gwmpas y cynhwysydd oedd yn effeithiol dros ben. Yna gosodwyd 'sbrigau yn syth i fyny gyda thiwlips rhyngddynt a mwsog i orchuddio'r bowlen ddŵr a'r conau.

Gwnaed cynhwysydd y pumed gosodiad o ddisgiau bychan crwn o bren wedi eu gludo gyda'i gilydd i wneud powlen. Defnyddiwyd dail Fastia, cywion gwyddau, Latris glasgoch, Agapanthus, Iris glas a Chlimatis bach gwynion. Hyfryd iawn.

Ar bedestal o rodiau dur weid eu gorchuddio âffabrig gwyrdd y gwnaed y gosodiad olaf gydag amrywiaeth o ddeiliach, cynffonau ŵyn bach, Rhododendron bach gwyn, Ffarwel Haf melyn a Rhosod melyn. Gwych!

Talwyd y diolchiadau gan Doris. Bydd ein cyfarfod nesaf ar y 2il o Ebrill.

Margherita Jones

CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

Yn cyflwyno Amser i Siarad ....

**Ewyllysiau, Pwerau Atwrneiaeth a Costau Gofal**

NID OES ANGEN ARCHEBU LLE

**Ymunwch â'n harbenigwyr am gyflwyniad addysgiadol rhad ac am ddim ar y materion pwysig hyn gyda'r cyfle i holi ein cyfreithwyr profiadol**

**Canolfan Gymunedol Awelon**
**Ffordd yr Ysgol, Rhuthun**
*10yb–11yb*
6ed Mehefin
**1af Awst**

**Canolfan Gymunedol Eirianfa**
**Factory Place, Dinbych**
*10yb-11yb*
20fed Mehefin
**18fed Gorffennaf**
15fed Awst
**19eg Medi**

**Neuadd Gymunedol Llys Erw**
**Rhuthun**
*10yb–11yb*
**2il Mai**
4ydd Gorffennaf
**5ed Medi**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'n Tîm Cleientiaid Preifat ar
**01824 703833 (Rhuthun) neu**
**01745 818263 (Dinbych)**

**Byddwn yn cynnig gostyngiad unigryw i'r rhai sy'n mynychu**

www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com

## MASNACH DEG YN NINBYCH



Ysgol y Parc



Coleg Myddleton



Ysgol Henllan

Yn ddiweddar, mae pwyllgor Masnach Deg Dinbych wedi gofyn i bob Ysgol Gynradd leol ymgysylltu â'r Plant i gynhyrchu Poster yn nodi beth mae Masnach Deg yn ei olygu iddyn nhw. Trefnwyd hyn i gyd-fynd â Phythefnos Masnach Deg fu'n rhedeg rhwng Chwefror 25ain a Mawrth 10fed. Derbyniwyd posteri a beirniadwyd y gystadleuaeth gan Faer Dinbych, y Cynghorydd Catherine Jones. Mae'r posteri wedi cael ei harddangos yn Co-op Dinbych a Hamper wedi cael ei pharatoi ar gyfer y 2 enillydd, un o Gyfnod Allweddol 1 a'r llall o Gyfnod Allweddol 2 gyda rhoddion caredig wedi'u derbyn gan Morrisons a Co-op.

Bydd y grŵp yn awr yn edrych ar y broses a'r dystiolaeth sydd eu hangen ar gyfer adnewyddu statws Tref Masnach Deg Dinbych sydd i fod i mewn erbyn mis Hydref.

*Carys Jones, Cynorthwyydd Dinesig, Digwyddiadau a Gweinyddol Cyngor Tref Dinbych*

DBP HOME IMPROVEMENTS
Improving Homes Since 2004



**DBP HOME IMPROVEMENTS LTD**
*Ystad Ddiwydiannol Colomendy*
*Dinbych*
*LL16 5TA*
*Tel: 01745 818849*
*Fax: 01745 817267*
*enquiry@dbpltd.co.uk*
*www.dbpltd.co.uk*

**Ystafelloedd Arddangos ar Agor Chwe Diwrnod yr Wythnos**

# AM GAEL YSTAFELL NEWYDD?







YDY'CH YSTAFELL WYDR YN HEN AC WEDI BLINO?

YDY HI'N TEIMLO'N OER?

YDYCH CHI'N COLLI LLAWER O WRES DRWY EICH TO PRESENNOL?

HOFFECH CHI EI GWNEUD YN FWY CYDNAWS Â'CH TŶ CHI?







Cyllid ar gael

***Ffenestri, drysau, ystafelloedd gwydr, "Roofline" a llawer mwy***

**Galwch & gofynnwch am Mike Hargraves ar 01745 818849 neu ar ei ffôn symudol**

**07778 752822**

I GAEL PRIS YN RHAD AC AM DDIM, HEB RWYMEDIGAETH.

NEU GALWCH I MEWN I WELD MIKE YN EIN YSTAFELL ARDDANGOS

# Dinbych yn Blodeuo

Dilynwch ni ar



Sefydlwyd Dinbych yn Blodeuo yn 2016 gan grŵp bach o wirfoddolowyr oedd am harddu eu hardal leol. Ers hynny mae'r grŵp wedi tyfu ac mae canlyniad eu llafur yn amlwg yng nghanol y dref ac mewn ardaloedd cyfagos. Gosodwyd basgedi rheiliau a phlanwyr mawr yn y Stryd Fawr ac ar Stryd y Dyffryn; mae gerddi Temple Bar wedi cael eu trawsffurfio; ailsefydlwyd y gwely rhosod yn Nhrewen; mae'r gwaith ar y ddau gylchfan yn mynd yn ei flaen ac mae'r cyfan yn cael ei wneud gyda'r bwriad o gefnogi bywyd gwyllt a'r amgylchedd. Mae'r ymateb cadarnhaol a gafwyd gan drigolion y dref ac ymwelwyr yn anhygoel ac mae lefel fandaliaeth wedi disgyn. Derbyniwyd cydnabyddiaeth gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac Uchel Siryf Clwyd ymhlith eraill, ac mae gwobrau wedi cael eu derbyn hefyd. Daw'r holl gyllid o grantiau, nawdd, gwerthiant calendr a bagiau, a rhoddion hael.

Mae Dinbych yn Blodeuo yn cydweithio gydag ysgolion, cartrefi gofal, grwpiau cymunedol a grwpiau gwirfoddol i dyfu'r planhigion. Maen nhw'n dosbarthu hadau, planhigion plwg bach, compost a photiau i'r grwpiau, ac yn rhoi hyfforddiant os oes angen. Wedyn, byddant yn casglu tua hanner y planhigion ac yn eu plannu yn y dref. Caiff y grwpiau gadw'r hanner arall er mwyn eu defnyddio yn eu clybiau garddio neu eu plannu yn eu harddangosfeydd eu hunain. Mae enwau'r ysgolion/grwpiau wedyn yn cael eu gosod ar y planwyr yn y dref, ynghyd ag enwau'r noddwyr sydd wedi noddi'r planwyr.


Y llynedd cystadlodd Dinbych yn Blodeuo yng nghynllun 'Dyma'ch Cymdogaeth chi' y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol a derbyn y clod uchaf, 'eithriadol'. Awgrymodd y Beirniad eu bod yn y gystadleuaeth anghywir ac y dylent anelu yn uwch. Felly eleni mae'r grŵp wedi penderfynu cystadlu yn 'Cymru yn ei Blodau' a bydd y Beirniaid yn ymweld â'r dref yn gynnar ym Mis Gorffennaf. Byddant yn chwilio am gyflawniad garddwriaethol, cyfrifoldeb amgylcheddol a chyfranogiad cymuned. Ar eu taith byddant yn ymweld â chanol y dref a gerddi Temple Bar, yn gyrru i lawr Ffordd y Rhyl i gylchfan 'Yr Ieir', ar hyd y ffordd osgoi a Ffordd Rhuthun, gan alw yn Nhrewen, ac yn ôl i Neuadd y Dref.

Mae hon yn fenter enfawr, ac mae'r grŵp yn gofyn am gymorth a chefnogaeth trigolion i dacluso ac harddu'r dref, yn arbennig o gwmpas llwybr y Beirniaid. Gall codi sbwriel, tacluso llain o laswellt a phlannu potiau, er enghraifft, ennill mwy o farciau. Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn neu os hoffech chi gael mwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Lyndsey Tasker yn ei siop garpedi ar y Stryd Fawr neu ar denbighinbloom@hotmail.com




**HEN LUNIAU**

Os oes gennych hen luniau o'ch teulu, cymdogion neu ffrindiau o'r ardal ac yn dymuno eu rhannu gyda darllenwyr y Bigwn, anfonwch ar ffurf ebost at ybigwn@hotmail.co.uk ac fe roddwn un llun bob mis yn Y Bigwn. Os yn bosib, byddai enwau, digwyddiad neu yr achlysur yn help i bawb adnabod y llun.




MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

### Atebion MAWRTH 2019

**Ar Draws :**
8. Eliffantod
9. Deian
11. Giggs
12. Adolygiad
13. Adfail
15. Ailennyn
18. Afocado
19. Negeswr
22. Glawcoma
24. Estrys
26. Diagnosis
28. Buddug
30. Tawel
31. Amgylchynu

**I Lawr :**
1. Hesg
2. Ailgofio
3. Maes
4. Atlas
5. Adloniant
6. Adwy
7. Miliwn
10. Nodyn
13. Adda
14. Ifanc
16. Esgus
17. Gormesiad
20. Seryddwyr
21. Râs
22. Godot
23. Abacws
25. Ysigo
27. Neli
28. Bale
29. Grug

## CROESAIR EBRILL 2019




**Ar Draws :**
1. Dyfais i weld pethau bychain
9. (a 20 i lawr) "Yr .... a'r .......", dau aderyn..
10. Bwyd Cymreig (4,6)
11. Stâd tai yn Ninbych
12. Ebychiad Beiblaidd
15. Rhestr yn nhrefn y wyddor
16. Tywysog a garodd Nia Ben Aur
17. Hitia ...., paid â phoeni
18. (a 21) Stâd arall o dai yn Ninbych (4,1,6)
19. Pwnc gwyddonol
21. g 18
22. "Y .......", Papur wythnosol y Presbyteriaid
24. Marchogaeth
27. Defodol
28. Llyncu hylif
29. Adloniant Cymreig (5,5)

**I Lawr :**
2. Ffeibr gwnïo
3. Afiechyd a gysylltir â'r Dr Evan Pierce
4. Perlysieuyn
5. Punt a swllt
6. Ardal yng Nghaerdydd
7. Rhaid pasio hwn i gael trwydded llawn (5,5)
8. Y cyflwr o fod yn frenin
12. Ystwythder
13. Yr hawl i deyrnasu
14. Safle mewn tîm pel-droed
15. Gorchudd llaw
19. Tanwydd, paraffîn
20.g 9ad.. mewn cân gan Meic Stephens
23. Llysieuyn mewn pryd dwyreiniol (4,2)
25. .... am Godot
26. Rhan cyntaf diwrnod

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

Trefnwyr Angladdau Annibynnol
R.W.Roberts a'i Fab
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
SAIF

## Urdd Cyfeillion Ysbyty Glan Clwyd

Mae Urdd Cyfeillion Ysbyty Glan Clwyd yn fyr iawn o wirfoddolwyr i weithio yn y bar tê newydd a’r siop newydd.
Ein nod yw codi hanner miliwn dros y flwyddyn nesaf.
Mae nifer y gwirfoddolwyr wedi disgyn o 420 i 250 dros y blynyddoedd ac felly mae gwir angen mwy.
Os oes gennych o 2 awr i 4 awr yn rhydd yn wythnosol, pob pythefnos neu yn fisol buasem yn hynod ddiolchgar ac yn eich croesawu atom.
Cysylltwch â 01745 448 788 a gofyn am estyniad 7208 neu siaradwch ag unrhyw un ar y bar tê neu yn y siop.

## Croeso Cymreig yn y stryd fawr

Os ydych chi wedi bod yn siopa yn ein trefi lleol dros yr wythnos ddiwethaf, byddwch wedi sylwi bod rhai busnesau ledled y sir wedi bod yn brysur iawn yn addurno eu ffenestri i gyfleu diwrnod ein nawdd sant Cymru ar Fawrth 1af.
Cynhaliwyd cystadlaethau ffenestri Dydd Gŵyl Dewi eto eleni gan Menter Iaith Sir Ddinbych, gyda chymorth Cynghorau Tref a’r prosiect Cymraeg Byd Busnes. Roedd y rhai a ddaeth i’r brig yn yr ardal hon fel a ganlyn:
**Dinbych**
1af Siop Reebees 2il Ffotograffiaeth Tony Griffiths
3ydd Siop Siocled Dinbych
Meddai Iorwen Jones o’r Fenter, “Hoffem ddiolch yn fawr iawn i’r holl busnesau am gymryd rhan yn yr hwyl. Mae’r ffenestri yn sicr wedi dod â sylw i’n trefi, a gwych yw clywed adborth gan fusnesau sydd wedi gweld cynnydd yn y nifer o gwsmeriaid trwy eu drws”.
Mae lluniau’r ffenestri i gyd i’w gweld mewn albwm lluniau Dydd Gŵyl Dewi 2019 i'w gweld ar dudalen Facebook Menter Iaith Sir Ddinbych

(lluniau ar tud 1 a 35)

## APÊL HEN GAPEL JOHN HUGHES PONTROBERT, MALDWYN

### CANOLFAN UNDOD AC ADNEWYDDIAD CRISTNOGOL

Mae Ymddiriedolwyr y fangre hanesyddol a chysegredig hon mewn argyfwng oherwydd bod y to yn gollwng, ac erbyn hyn mae’r pwyllgor llywio lleol yn apelio at Gymru gyfan yn y gobaith o godi digon o arian at ofynion CADW, sef dwy ran o dair o’r cyfanswm – sydd ar hyn o bryd yn agos at £8,000 ym marn y pensaer ymgynghorol – er mwyn gwneud cais am grant i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Chwilio yr ydym am bobl garedig a fyddai’n barod i ‘brynu’ llechen’ am £10 yr un.
Os yw eich darllenwyr yn rhannu ein cred mai trysor cenedlaethol yw’r adeilad hwn gyda’i gysylltiad agos ag ANN GRIFFITHS, gobeithiwn y byddant yn ymateb yn gadarnhaol ac yn anfon eu cyfraniadau at ein Trysorydd Mygedol, Mrs Beryl Vaughan, Tŷ Mawr, Llanerfyl, Y Trallwng, Powys SY21 0JD.
Diolch yn fawr iawn.
Nia Rhosier
Ysgrifennydd Mygedol

## Y BIGWN YN BUNT!

Yn anffodus, bydd pris Y Bigwn dros y cownter yn codi i £1 yn yr Hydref.
I’r rhai ohonoch sydd yn danysgrifwyr, y newyddion da yw na fydd hyn yn effeithio arnoch tan y Gwanwyn.
Bu’n rhaid inni godi’r pris am ddau reswm, cynnydd yn ein costau cynhyrchu a’n defnydd cynyddol o liw.
Er bod y papur yn dyblu yn ei bris, yr ydym yn siwr y cytunwch ei fod yn werth pob dimai goch, ac y byddwch yn dal i’n cefnogi.

## ARGYFWNG GOLYGYDDION!

Gyda thri o’n golygyddion yn rhoi gorau iddi eleni, y mae hi’n dipyn o argyfwng ar Y Bigwn.
Golyga hyn gynnydd sylweddol yn llwyth gwaith gweddill ein golygyddion.
O ganlyniad apeliwn yn daer arnoch i ystyried o ddifrif a allech chi fod yn rhan o’n tîm golygyddol.
Cewch arweiniad a phob cefnogaeth gyda’r gwaith, sef golygu ar y mwyaf ddau rifyn y flwyddyn.
Am fwy o fanylion, cysylltwch â:-
naill ai, Stan Lyall (stanmaberic@hotmail.com) 813659
neu, Bedwyr Griffiths (ed321@btinternet.com) 814497

## CYFARCHION

Yn wahanol i rai papurau bro eraill, nid ydym yn codi tâl penodol am osod cyfarchion teuluol yn Y Bigwn, ond byddem yn falch ac yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw gyfraniad gennych.



# Dathlu Gŵyl Dewi yn Ninbych




Y Maer Cyng. Catherine Jones a'r Cyng. Roy Tickle



Wendy Evans yn gwerthu nwyddau gan y Co-op at achosion dyngarol



Mwynhau creu swigen ddŵr mae Oscar Hughes

# Noson Parablu gyda Tudur Owen



Tudur Owen



Cymryd rhan hefyd oedd Beth Celyn



Gyda'r raffl oedd Mair ac Elen

/gwasg.com PRINT

ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO

Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 | info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint

## Cwilt, cwmni, cinio a chomedi

Ar fore Mawrth 1af fe gychwynnodd pedair ohonom am sbri fach i Lundain. Pam mynd i fan'no ar ddydd ein nawddsant, meddech chi? Mynd yno i weld cwilt o'm heiddo yn Neuadd Arddangos Olympia yn y Sioe Wau a Gwnïo oedden ni. Roeddwn wedi ei lunio at gyfer Quiltfest, Llangollen ond oherwydd gwyliau yn yr Eidal ('sa chi'n meddwl mod i byth adre!) mi fethais â chael ei weld yno, felly doedd ond mynd i Lundain amdani.

Dyma'r tro cyntaf i mi wneud cwilt ar gyfer arddangosfa ac mae'n rhaid rhoi enw i'r cwiltiau hyn. Fe'i bedyddiwyd yn "Lladd Dau 'Dderyn" oherwydd ei fod yn ateb dau bwrpas. Mae Cwiltwyr Dyffryn Clwyd yn gosod sialens bob blwyddyn ac eleni, defnyddio defnydd â gyfranwyd gan rywun arall i wneud unrhywbeth ydy'r her. Fe ges becyn o ddefnyddiau coch a hufen a dyna'r man cychwyn.

Ail ran y stori ydy bod cylchgrawn chwarterol "The Quilter" wedi cyhoeddierthyglau ar sut i lunio cwilt modern a gofynnwyd am esiamplau o'r rhain yn Llangollen. A dyna ddod â'r ddau beth at ei gilydd a phenderfynu gwneud cwilt modern efo'r defnydd coch a hufen. Beth sy'n ei wneud yn fodern ydy nad ydy o'n gymesur a dydy'r patrymau ddim yn unffurf. Er nad oedd y patrwm yn draddodiadol, roedd y lliwiau coch a hufen yn boblogaidd ers talwm ac felly mae'r lliwiau'n adleisio'r cwiltiau coch a gwyn oedd yn gyffredin yn y 19C.

Fe gafwyd bron i drideg o'r cwiltiau modern yn Llangollen o hyd a lled Prydain ac yna roeddan nhw i gyd yn mynd yn eu blaenau i stondin y Quilters' Guild yn y Sioe Wau a Gwnïo. Mae hi'n sioe bedwar diwrnod felly mae'n debyg bod miloedd wedi ei weld – teimlad reit od a dweud y gwir.

Roedd llawer o ddigwyddiadau Cymraeg a Chymreig yn Llundain yn ystod y cyfnod hwn i ddathlu Gŵyl Ddewi. Aethom o'r sioe i Borough Market i weld stondinwyryn arddangos bwydydd o Gymru yno a chael blasu ambell beth wrth gwrs. Cawsom brofi un neu ddwy o gacennau caws newydd Siwgr a Sbeis gan Rhian Owen a phrofi sawsus siocled anfarwol cwmni gwneud 'brownies' o Benrhyn Gŵyr. Dant melys? Pwy, fi? A chan fy mod i'n sôn am fwyd, roedd ymweld â bwyty newydd Bryn Williams yn Somerset House am ginio y diwrnod canlynol yn gyfle rhy dda i'w golli.


Mi wasgon ychydig o ddiwylliant i mewn i'r deuddydd prysur hefyd a chael llond bol o chwerthin yn theatr y Criterion yn gwylio "The Comedy about a Bank Robbery". Os am fynd i Lundain rhaid gwneud y mwya o bob munud yno. Ar ôl paned a chacen (arall) efo Garmon ac un o'i ffrindiau, adre â ni i dawelwch Dyffryn Clwyd i gynllunio'r cwilt a/neu'r daith nesa.

Angharad

## DEMENTIA GYFEILLGAR DINBYCH

Yn ddiweddar, daeth cyfle i gyflwyno tystysgrifau i'r sefydliadau cyntaf i gyflawni eu haddewidion a bodloni pwyllgor "Dementia Gyfeillgar Dinbych" a chael statws "sefydliad cyswllt". Cyflwynodd gadeirydd DGD, Dilwyn Jones dystysgrifau i Louisa Roberts, Prifathrawes Ysgol y Parc, a Llinos Davies o Lyfrgell Dinbych. (lluniau ar dud 35)

## "BYWYD I BAWB" - APÊL MADAGASCAR




Unwaith bob pum mlynedd, mae un o'r enwadau Cristnogol yn gyfrifol yn eu tro am godi arian tuag at apêl penodol, fel arfer mewn cydweithrediad â Chymorth Cristnogol. Eleni, sef y flwyddyn 2018-19, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg sy'n gyfrifol am yr apêl, ac yng Nghyfarfod Blynyddol yr Undeb ym 2017, penderfynwyd mai Madagascar fyddai gwrthrych yr apêl. Gan nad oes gan Gymorth Cristnogol weithgarwch ym Madagascar, penderfynwyd, yn dilyn trafodaethau trwyadl gyda'r elusen, y byddai'n rhaid i'r Undeb gynnal eu hapêl eu hunain y tro hwn "gan ddychwelyd at Gymorth Cristnogol mor fuan â phosibl wedi hyn".

Pam felly? Wel, ar 18 Awst 1818, glaniodd dau genhadwr ar yr ynys. Cymry Cymraeg o Sir Aberteifi oedd Thomas Bevan a David Jones, ac hyd heddiw mae pobl Madagascar yn cofio eu cyfraniad i ddatblygiad y genedl drwy enwi strydoedd, ysgolion ac eglwysi ar eu hôl. Ym 1821, cyrrhaeddodd David Griffiths o Sir Gaerfyrddin yr ynys, ac ym 1826 teithiodd David Johns (Jones yn wreiddiol) o Sir Aberteifi i ymuno â'r tri Cymro arall. Cymwynas fawr y gŵyr hyn, a David Griffiths yn arbennig, ymhlith nifer o bethau eraill, oedd cyfieithu'r Beibl i'r Falagaseg, yr iaith Affricanaidd gyntaf y cyhoeddwyd y Beibl cyfan ynddi. Annibynwyr o Gymru fu'n gyfrifol am hyn, felly priodol yw cynnal yr apêl arbennig hwn i gefnogi gwahanol brosiectau ym Madagascar ac i ddathlu'r "cysylltiad hanesyddol sydd rhyngom fel dwy genedl".

Y prosiectau penodol ydy:

- Akany Avoko Faravohitra, sef canolfan breswyl i adfer ac ailhyfforddi merched ifanc
- Cartref Plant Amddifad Topaza
- Meddygfa, Deintyddfa a Fferyllfa SAF
- Coleg Diwinyddol Ivato: Rhaglen Addysg Amgylcheddol

Fel rhan o'r gweithgareddau codi arian, mae aelodau Eglwys Annibynnol Lôn Swan wedi trefnu Noson Cawl a Cwis yn Festri'r Capel am 7.00 11 Ebrill. Mae'r tocynnau ar gael am £5.00 o flaen llaw gan Aelodau'r Eglwys, ac mae croeso cynnes i bawb.

Os hoffech ddarllen yr hanes hynod ddiddorol hwn, mae copïau o'r llyfr "Hanes Madagascar" gan David Griffiths, yn ogystal â phecyn yn cynnwys bag, mwg a chôster, ar gael am £10 drwy fy ffonio ar 01745 812239.

***John Davies***



# CYNGERDD ELUSENNOL Y MAER



Tegid Goodman-Jones, Y Maer Cyng. Catherine Jones a Kathryn Nash



Arweinydd Côr Meibion Dinbych ar y noson oedd Clwyd Wynne gyda Nia Jones, Cyfeilyddes



Cafwyd unawd hefyd gan Geraint Roberts



Cyng. Roy Tickle,Carys Jones,Cyng. Gaynor Tickle, Irene Williams a'r Maer Cyng. Catherine Jones



Nos Sadwrn, 2il o Fawrth cynhaliwyd Gyngerdd Elusenol y maer gyda Côr Meibion Dinbych ynghyd â Kathryn Nash, Mezzo Soprano o Lanelwy sydd â chysylltiadau teuluol cryf iawn â Dinbych. Mae Kathryn yn unawdydd profiadol ac mae galw mawr amdani i berfformio mewn cyngherddau ac oratorios. Mae wedi ennill sawl gwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
Hefyd cymerwyd rhan gan Tegid Goodman-Jones sydd yn un ar bymtheg mlwydd oed ac yn byw yng Nghaerwys ac mae eisoes yn berfformiwr profiadol, wedi ennill nifer o wobrwyon mewn eisteddfodau, gan gynnwys Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen.

# Y Golofn Gyfreithiol




## Ysgaru – a oes newid ar y gweill?

Ar hyn o bryd yng Nghymru mae 5 sail i ysgariad y gall partïon ddibynnu arnynt –

1. 2 flynedd o wahaniad gyda chydsyniad
2. 5 mlynedd o wahaniad heb gydsyniad
3. Ymddygiad afresymol
4. Godineb
5. Gadawiad

Mae'r ddwy sail gyntaf yn gofyn fod y partïon yn gorfod disgwyl cyfnod o amser eithaf hir cyn y gallant ddibynnu arnynt, gyda'r drydedd a'r bedwaredd sail arall yn gofyn am ryw fath o fai ar un o'r partïon. Y bumed sail yw Gadawiad, hynny yw, nad ydych yn gwybod ym mha le mae eich priod. Bu un achos yn ddiweddar, Owens v Owens [2018] UKSC 41, ble bu'r barnwr ddweud nad oedd honiadau dinod o ymddygiad afresymol yn ddigonol i gael ysgariad, a bod y trothwy yn eithaf uchel o ran y math o ymddygiad afresymol roedd yn rhaid i'r partïon arddangos. Mae'r achos yma'n arwyddocaol gan fod tua hanner ysgariadau ar sail ymddygiad afresymol. Ond beth os does dim bai ar ru'n o'r partïon, a'u bod eisiau ysgaru? Nid yw hyn yn bosib ar hyn o bryd dan gyfraith y wlad hon, ond mae'n debyg fod newid ar y gweill. Mae nifer o ymarferwyr yn dadlau ei bod yn annheg yng nghyd-destun priodasau, yn enwedig rhai hir, i ŵr neu wraig orfod beio'r llall am ddod a'r briodas i ben. Yn ogystal gellir dadlau fod ysgariadau lle nad oes gorfod beio eich gŵr neu eich gwraig yn mynd i arwain at setlo materion eraill yn y nghyd-destun priodasol yn haws e.e. cyswllt gyda phlant a rhaniad arian ac asedion. Mewn rhai gwledydd eraill mae'n bosib eisoes ysgaru heb ddibynnu ar roi bai ar eich cymar.Ar y llaw arall dywedir gan rai fod priodas yn gytundeb pwysig hir dymor ac na ddylid ei gwneud yn hawdd i ddau barti ymwahanu.
Amser a ddengys beth a ddaw ond tybiwn ei bod yn anochel yn hwyr neu'n hwyrach y bydd yn bosib ysgaru heb weld bai.



# Fy Siwrnai i'r Gymraeg



Mi ddes i i Gymru yn 2010, ar ôl blynyddoedd lawer yn Swydd Gaerhirfryn, lle roeddwn yn gweithio efo oedolion efo anabledd dysgu. Yn 2010 mi ddechreuais i weithio yn St Beunos yn Nhremeirchion, fei rhan o'r tîm ecil. Rôn i'n byw yn y gymuned yno. Fel y rhan fwya o bobl o du a!lan i Gymru, doeddwn i ddim yn gwybod llawer arn Gymru. Rôn i wedi dod yma fel twrist yn yr wythdegau a sylwi ar y gair "araf" ar *y* ffyrdd, ond rôn i wir yn Awstraliad anwybodus a mi ges i fy magu i feddwl mai Lloegr oedd yr ynys gyfan!

Yn St Beunos, mi ddatblyges i ddiddordeb yn yr iaith Gyrnraeg a dechreues i feddwl am ddysgu, ond roedd fy mywyd gwaith yn afreolaidd iawn felly doedd dosbarthiadau rheolaidd ddim yn bosibl. Tua diwedd 2012, mi ymunes i â *Say Something in Welsh.com* a dechreuodd y daith. Mae *Say Something in Welsh.com* yn brofiad dysgu ar-lein a dysgodd i mi siarad ac rhoddodd yr hyder i mi fentro. Mi ddarganfyddes i hefyd Nant Gwrtheyrn ac mi es i yno sawl gwaith ar gyfer cyrsiau dwys.

Yn 2016 mi ymddeoles. Mi adawes i St Beunos a symud i Ddinbych. Ym mis Ionawr 2017, mi ddechreues i ddosbarthiadau Cymraeg rheolaidd ar Lefel Pellach ym Mhrifysgol Bangor a rŵan dw i wedi dechrau Lefel Uwch. Dw i'n mwynhau'r dosbarthiadau yn fawr iawn, ond roedd yn ychydig o sioc ar y dechrau. Mae *Say Something in Welsh.com* yn dweud. "Peidiwch â phoeni am gamgymeriadau, peidiwch â phoeni am dreigladau. Mi ddaw hi'n naturiol. Dim ond siarad, siarad, siarad. Ond yn y dosbarth rôn i'n caei fy nghywiro bob tro am fethu treiglad!

Yn Ninbych, edryches i am gaffis efo siaradwyr Cymraeg, a cheisies siarad Cymraeg. Mi ddechreues i gwrdd â phobl, clywed yr iaith a'i defnyddio, Yn fy marn i, mae'n bwysig i ddysgwyr symud allan o'r dosbarth a chymysgu â Chymry Cymraeg. Dw i wedi darganfod fod un profiad yn arwain at un arall a dw i'n nabod llawer o bobl yn Ninbych rŵan.

Yn y bôn, dw i'n synnu at faint o bobl dw i'n nabod ar ôl dim ond dwy flynedd a hanner. Dw i wrth fy modd yn byw yma, yn dysgu'r iaith, yn profi'r diwylliant, ac yn dod yn Gymraes. Dw i'n ddiolchgar iawn i bawb yma,

Maggy Cooper




# CASGLIAD Y WERIN

**Beth ydy hwnnw?**

Faint o'n darllenwyr, 'sgwn i, sy'n gwybod beth yn union ydy Casgliad y Werin, neu hyd yn oed yn ymwybodol o fodolaeth y fath beth? Rhaid i mi gyfaddef, cyn i mi gael fy "mherswadio" i fod yn rhan o griw bach o Glwb Rygbi Dinbych i ymgymryd â'r gwaith (gweler tudalen ??) doedd gen i ddim syniad o gwbl. Ond erbyn hyn, gallaf eich sicrhau fod hwn yn adnodd hynod werthfawr i unrhyw gymuned, fudiad, sefydliad, clwb, addoldy ac ati, sy'n ymhyfrydu yn eu hanes a'u hetifeddiaeth. Gallaf eich sicrhau hefyd fod yr hyfforddiant sydd ar gael – **yn rhad ac am ddim –** yn hynod ddiddorol a defnyddiol, ac wedi ei gyflwyno mewn dull cyfeillgar ac anffurfiol.

Rwy'n ddiolchgar iawn i Gruffudd Jones, Swyddog Maes Casgliad y Werin Cymru, am gyfrannu'r isod i'r Bigwn yn benodol.

***Gol.***

**********************

Gan ganolbwyntio ar gofnodi stori amrywiol a chyfareddol Cymru a'i phobl, mae Casgliad y Werin Cymru yn cefnogi prosiectau cymunedol, grwpiau, sefydliadau ac unigolion o amgylch y wlad i rannu eu strori gyda chynulleidfa ehangach. Wrth galon y prosiect hwn mae gwefan ddwyieithog sy'n llawn ffotograffau, dogfennau, storïau, recordiadau sain a fideos sy'n adrodd am hanes a diwylliant Cymru. Dyma le i ddarganfod, dysgu, cyfrannu a rhannu eich stori chi am Gymru i weddill y byd. Mae CYW yn falch iawn o fod wedi cefnogi Clwb Rygbi Dinbych wrth iddynt ddathlu 40 mlynedd o hanes y clwb, yn arbennig felly trwy gynnal dau sesiwn hyfforddi i aelodau'r clwb sydd wedi mynd ymlaen i recordio, dogfennu a chyhoeddi cynnwys ardderchog ar y wefan.

Gellir canfod mwy am eu stori yn eu cyfrif CYW (https://www.casgliadywerin.cymru/users/16845) ac y mae eu stori hefyd wedi ei chyhoeddi mewn cyfrol ddathliadol, *40 Mlynedd o Rygbi: Clwb Rygbi Dinbych*. Gyda'r nod o gynorthwyo pobl i ddefnyddio ac i ychwanegu at y casgliad anhygoel hwn, mae CYW yn darparu hyfforddiant am ddim i grwpiau ledled Cymru yn ogystal â rhoi benthyg offer a darparu cefnogaeth o bell fydd yn cynorthwyo pobl i gofnodi a rhannu eu hanes. Mae'r gwasanaethau hyfforddi yn helpu grwpiau i ddelio gyda materion megis hawlfraint, metadata, technegau digido a sut i rannu gwaith gyda chynulleidfa ehangach. Mae'r offer sydd ar fenthyg yn cynnwys pecynnau digideiddio, pecynnau hanes llafar, pecynnau fideo ac eitemau amrywiol eraill.

**Am wybodaeth bellach neu er mwyn trefnu cymorth gyda'ch grŵp neu eich prosiect eich hun, anfonwch ebost at casgliadywerin@llgc.org.uk neu cysylltwch ar 01970 632500.**

*Gruffydd E Jones, Swyddog Maes Casgliad y Werin Cymru*

# Sgorio



Malcolm, Aled, Iolo a Nic

Mae yna rhywbeth reit braf mewn gwylio criw o grefftwyr yn mynd o gwmpas eu gwaith yn hyderus a phroffesiynol. Mae yna rhywbeth yr un mor braf mewn gwrando ar griw o hen ffrindiau yn sgwrsio a rhoi'r byd yn ei le. Fe gafodd Iolo a minnau y ddau brofiad mewn un prynhawn Sadwrn yn ddiweddar, a hynny mewn cwt yn edrych dros gae ar lannau Dyfrdwy.

Mae'r stori yn cychwyn nôl ym mis Hydref, mewn Arwerthiant Addewidion ym Melin Brwcws i gasglu pres tuag at Eisteddfod yr Urdd yma yn Ninbych 2020. Cyn mynd roeddwn wedi llygadu un eitem yn arbennig, ac ar y noson roeddwn ddigon lwcus i'w ennill. Rhaid nad oedd fawr o neb arall yno yn gefnogwyr pêl-droed, oherwydd yr hyn a brynais oedd cyfle i ddau berson ymweld â gêm bêl-droed Uwch Gynghrair Cymru – yng nghwmni criw rhaglen Sgorio.

Mi gymerodd rai wythnosau i ni drefnu gêm oedd yn gyfleus i ni'n dau ac oedd, wrth gwrs, yn cael ei darlledu hefyd. Trwy lwc cawsom fynd i Stadiwm Glannau Dyfrdwy, cartref tîm Cei Connah, i'w gweld yn chwarae yn erbyn Y Seintiau Newydd. Ar ddechrau'r gêm roedd Cei Connah ar frig y gynghrair a'r Seintiau yn yr ail safle, felly roedd hon yn argoeli i fod yn gêm arwyddocaol iawn.

Cawsom gyfarwyddyd i gyrraedd yno ryw ddwyawr cyn cychwyn y gêm er mwyn i'r cyfarwyddwr a'r cynhyrchydd ein tywys o gwmpas adnoddau cwmni Rondo, sy'n cynhyrchu'r rhaglen ar gyfer S4C. Tu mewn i'w lori mae yna stiwdio llawn o beiriannau a sgriniau – a gweithwyr yn brysur baratoi'r rhaglen. Yr hyn a'm tarodd oedd y modd distaw a di-ffwdan yr oedd pawb yn cyflawni eu dyletswyddau. Pawb yn gwybod yr hyn oedd angen ei wneud ac yn ei wneud yn gwbl broffesiynol, fel peiriant wedi ei iro i weithio'n llyfn!

Roedd yr un peth yn wir pan gawsom gyfarfod y cyflwynwyr a sylwebwyr. Dylan Ebenezer sy'n cyflwyno'r rhaglen, gyda Nicky John yn gwneud cyfweliadau o ochr y cae. Nic Parry oedd y sylwebydd y diwrnod hwn, Owain Tudur Jones yn cynnig dadansoddiad o'r chwarae a'r di-hafal Malcolm Allen yn cyd-sylwebu. Cawsom wylio'r gêm o'r tŵr pwrpasol sydd yn wynebu prif (unig) eisteddle'r stadiwm, ac roedd yn bleser cael gwrando ar y tri yn mynd trwy'i petha tra ar yr un pryd yn cyflwyno disgrifiad a dadansoddiad lliwgar ond cywir o'r hyn oedd yn digwydd ar y cae. Llinell orau y prynhawn i mi (gan Malcolm Allen) oedd bod yr ornest wedi'w chwarae rhwng un tîm o artistiaid ac un tîm o *"painters and decorators"*.

Dyw popeth ddim yn llifo cystal bob tro, wrth gwrs. Clywsom am gêm ddiweddar lle bu'n rhaid rhoi'r gorau i ddarlledu gan bod y llif-oleuadau wedi peidio gweithio. Malcolm Allen gafodd y bai! Roedd wedi gofyn am lamp fechan ychwanegol i fedru darllen ei nodiadau, ac wrth iddyn nhw gysylltu'r lamp a'i throi ymlaen aeth y stadiwm i gyd yn dywyll!

Wedi'r gêm, ynôl â ni i'r stiwdio i weld darlledu gweddill y rhaglen, y cyfweliadau a'r diweddglo – a chael cynhesu, a chyfle i ddiolch i bawb am y croeso a gawsom. Yn wir o'r cychwyn doedd dim yn ormod o drafferth ganddyn nhw; cawsom ryddid i sgwrsio a holi pobl oedd yn amlwg yn brysur iawn ond oedd hefyd yn cymryd balchder mewn cynhyrchu rhaglen o safon. A'r cyfan, wrth reswm, trwy gyfrwng y Gymraeg.

A canlyniad y gêm? Y Seintiaudrechodd Y Crwydriaid o ddwy gôl i ddim. Ar y noson roedd y bwlch mewn safon a'r gwahaniaeth mewn arddull chwarae y ddau dîm yn amlwg. Aeth YSN yn ôl i frig y tabl, aeth y sylwebyddion a'r criw technegol adref a rowliodd peiriant Sgorio ymlaen i'w gêm nesaf!

Aled Rhys

Jones & Graham
45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH
CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES
Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim
Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg
01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk




Stiwdio Sgorio

# Cornel y Plant


Y BIGWN

Diolch yn fawr i Gwen Alaw Elis ac Awen Gwyn Ellis o Fferm Tŷ Newydd, Trefnant, Ifan Wood ac Elysa Haf Morgan o Ddinbych, am ymateb i dasg Erfyl yn y rhifyn olaf o'r Bigwn. Mae Erfyl wedi addo gwobr i'r pedwar – hael iawn Erfyl! Cewch weld eu hymdrechion gwych ar dudalen 2

## BETH AM BAENTIO ŴY FEL HYN I DDATHLU'R PASG ELENI?

- Gofynnwch i Mam, Dad neu rywun cyfrifol i'ch helpu i ferwi ŵy yn galed.
- Gadewch iddo oeri!
- Wedyn paentiwch neu liwiwch yr ŵy mewn patrwm lliwgar.
- Tynnwch lun ohono.
- Gyrrwch y llun i johndavies744@btinternet.com **cyn dydd Iau Ebrill 18fed**, a bydd y gorau'n ymddangos yn y rhifyn nesaf.





# PASG HAPUS I BAWB!

**Ar ran y Bwrdd Golygddol, hoffwn ddiolch i Gwenan Ellis am ei pharodrwydd i fod yn gyfrifol am Dudalen y Plant dros gyfnod o rai misoedd. Yn affodus, dydy hi dim am barhau i wneud y gwaith, ac mae angen Golygydd Y Plant arnom ar fyrder! Felly cysylltwch â ni os oes gennych ddiddordeb mewn cyflawni'r swydd bwysig hon. Diolch yn fawr.**
***Gol.***

**RHYBUDD GDPR**
Oherwydd rheolau newydd ynglŷn â phreifatrwydd data personol, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'r ffordd mae **Y Bigwn** yn casglu gwybodaeth a newyddion a'u cadw.
**Gofynnwn i ohebwyr, cyfranwyr, clybiau, grwpiau ac ysgolion ddatgan eu bod:-**

wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwr pob plentyn dan 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth anfon pob adroddiad i'r **Bigwn**

wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn dros 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i'r **Bigwn**.

Ni dderbynnir unrhyw newyddion personol/lluniau am blentyn ond oddi wrth riant neu ofalwr y plentyn hwnnw.
**Felly wrth ddanfon eich newyddion neu luniau i'r Bigwn, cofiwch eich bod wedi gwneud yr uchod a chynnwys y datganiad canlynol gyda'ch newyddion a'ch lluniau:**
Rydym yn datgan ein bod wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwyr pob plentyn dan 13 a gynhwysir yn yr adroddiad/lluniau atodedig ar gyfer eu cyhoeddi yn **YBigwn**, yn ogystal â chaniatâd pob unigolyn dros 13 a gynhwysir.
Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth gyda hyn

# AMGUEDDFA RADIO

Gwefr heb Wifrau

Dilynwch ni ar





I nodi Dengmlwyddiant Gwefr heb Wifrau ym mis Hydref 2018, comisiynwyd cerflunwaith gan Studio MADE a fyddai'n cyfuno elfennau o fyd celfyddyd, gwyddoniaeth a thechnoleg. Cyflwynwyd y gwaith gorffenedig i'r Amgueddfa yn ystod Darlith Goffa David Edward Hughes ar Fawrth 15fed, 2019. Disgrifiodd Mark ac Angela y broses o ddylunio a chreu'r gwaith, ar ôl astudio casgliad yr Amgueddfa, gyda'r bwriad o drawsyrru goleuni a sain rhwng cerflunweithiau digidol rhyngweithiol. Disgrifion nhw hefyd sut y ffurfiwyd yr arddangosfa yn y Stiwdio ar benwythnos Drysau Agored Dinbych a oedd yn cynnwys delweddau arteffactau o'r casgliad ac hen fideos o fyd radio. Cafwyd ymateb brwdfrydig iawn gan aelodau'r gynulleidfa, a gobeithir medru defnyddio'r cerflunwaith yn y dyfodol yn ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Yn y lluniau, gwelir Mark ac Angela yn gosod y cerflunwaith yn ei le a Mark yn dangos i Vesi sut i'w ddefnyddio.

Roedd yr Amgueddfa yn llawn bwrlwm ar fore Sadwrn, Mawrth 2il, pan gynhaliwyd nifer o weithgareddau yno yr un pryd. Roedd yr Amatyriaid Radio yn brysur yn cysylltu ag Amatyriaid eraill ar draws y byd, y plant i fyny'r grisiau yn mwynhau'r Bore Crefftau a'r gweddill ohonom yn mwynhau danteithion y Bore Coffi. Ar ben hyn i gyd, daeth ymwelwyr o Sir Gaer i Ddinbych yn unswydd i weld ein casgliad.



Yr Amatyriaid Radio



Pobl yn mwyhau'r Bore Coffi





'Daearyddiaeth, Daeareg a Gemfeini' oedd testun darlith Tony Vine yn ddiweddar. Disgrifiodd sut yr ennynwyd diddordeb newydd ynddo ar ôl ymddeol, pan welodd fwced yn llawn o gerrig o'r traeth a pheiriant twmblo cerrig gerllaw. Mae'r diddordeb wedi datblygu i fod yn angerdd erbyn hyn ac mae'n cydnabod ei fod yn 'Emydd gydag angerdd am gemfeini a ffosiliau'. Rhoddodd eglurhad i ni ar sut mae gemfeini wedi cael eu ffurfio mewn gwahanol fathau o greigiau dros y blynyddoedd a sut maen nhw'n dod i'r wyneb. Soniodd am sut y bu'r cyfandiroedd yn symud yn y gorffennol, gan nodi dau bwynt o ddiddordeb hynod – roedd yr Alban yn arfer bod yn rhan o Norwy, oherwydd gellir gweld yr un gadwyn o fynyddoedd gwenithfaen yn y ddwy wlad; mae cyfandir America yn drifftio 2Ẅ cm i ffwrdd oddi wrth gyfandir Ewrop bob blwyddyn. Yn y llun, gwelir Tony gyda rhan o'i gasgliad o gemfeini, gemwaith a ffosiliau.



Dyma Bryn Humphreys, un o gefnogwyr Gwefr heb Wifrau, yn gwisgo cap radio a brynodd pan oedd yn gwylio Ras Moduron Le Mans yn Ffrainc yn 1990, er mwyn cael gwrando ar y sylwebaeth Saesneg. Sylwch ar yr aerial a'r botymau tiwnio a lefel sain ar yr ochr dde ( i Bryn) a bag yn cynnwys y batri ar yr ochr chwith.

Cynhelir dwy ddarlith yn ein cyfres ar nos Wener am 19.00 cyn yr haf:

Mai 17eg, Sue Clark yn siarad am "Golygu a Thrin Ffotograffiaeth".

Mehefin 21ain, Mike Farnworth yn siarad am "Y Cymry yn Lerpwl".

Fel rhan o Ŵyl Ganol Haf Dinbych, byddwn hefyd yn cynnal:
Bore Coffi Haf a Stondin Blanhigion yn yr Amgueddfa, 01/06/19, 10.00-12.00.
Bore Crefftau i blant oed 6-12, 01/06/19, 10.30-12.30. Cysylltwch â'r Amgueddfa i gadw lle.
info@wirelessinwales.org.uk
Noson Gwis, 13/06/19, 19.00 – 21.00.
Diwrnod Technegol Ymarferol i Deuluoedd, 15/06/19, 11.00-15.00.

Croeso cynnes i bawb a diolch am eich cefnogaeth.

# Ysgol Twm o'r Nant

Cafwyd dathliadau Dydd Gwyl Dewi hwylus yn yr Uned Dan 7. Cafodd y plant dê bach Cymreig yn y bore cyn mynychu Eisteddfod yr Ysgol yn y prynhawn.




Celyn yn mwynhau paned o dê.



Ellis, Shay a Harvey yn cael paned a bara brith!




Diolch hefyd i Mr Bazley o’r cwmni Playful Futures am ddiwrnod gwych yn dysgu am gyd-weithio allan yn yr awyr iach. Roedd y plant wrth eu boddau yn cael adeiladu llochesi o bob lliw a llun!







Ar Ddydd Mawrth yr Ynyd roedd yr Uned yn arogli’n hyfryd wrth i’r plant gael coginio a blasu crempog drwy’r dydd! Roedd pawb wrth eu boddau yn cael dewis pa flas i roi ar eu crempogau







Mae hi wedi bod yn fis prysur iawn yn yr Uned dan 5 hefyd wrth i ni ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod y Llyfr a Dydd Mawrth Ynyd.






Ein thema am y tymor yma yw'r stori draddodiadol Jac a'r Goeden Ffa. Rydym yn dysgu llawer am fywyd ers talwm ac am blanu a thyfu planhigion. Dyma ni yng nghanolfan arddio Green Fingers yn edrych i weld beth sy'n cael ei werthu yno.




Aethom ati wedyn i greu Canolfan Arddio yn y dosbarth. Rydym yn cael llawer o hwyl yn chwarae yno!




Bu prysurdeb mawr yng nghegin Ysgol Twm o'r Nant gyda Mrs Jane Jones yn ymarfer ac yn gofyn barn y plant am ei choginio. Roedd hi yn paratoi ar gyfer cynrychioli Cymru yn rownd derfynol Cogyddes ysgol orau. Yn anffodus ni fuodd yn lwyddiannus y tro yma ond cafodd brofiadau anhygoel. Bu hyd yn oed yn ymddangos fel gwestai ar raglan BBC The One Show. Llongyfarchiadau mawr Mrs Jones ac mi rydan ni mor falch o'ch cael chi yn coginio i ni staff a plant yn Ysgol Twm o'r Nant.



Fel rhan o thema yr Uned Dan 9 aeth yr uned ar ymweliad I Egwlys Wen. Rydym wedi bod yn gwrando ar chwedl Sion y Bodiau a da oedd cael gweld ei fedd arbennig yn yr Eglwys. Gwelsom hefyd man gorffwys Twm o'r Nant.







Daeth llawer o blant i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriadau o lyfrau ar Ddiwrnod y Llyfr. Braf oedd gweld yr ysgol yn llawn lliw. Cawsom ddiwrnod bendigedig yn trafod ein hoff lyfrau ac yn rhannu storïau hefo'n gilydd.





Cynhaliwyd Eisteddfod yr ysgol ar Fawrth 4ydd. Cafwyd eitem o gân gan bob dosbarth a roedd pob un plentyn wedi tynnu llun neu creu darn o farddoniaeth ar gyfer y cystadlaethau amrywiol.

Y tymor yma mae ein dewiniaid digidol uned dan 11 wedi bod yn brysur yn cydweithio gyda Ysgol Penbarras. Cawson nhw llawer o hwyl yn dysgu gwaith codio a stopmotion. Daeth llawer o lwyddiant yn y dasg yma wrth i'r dewiniaid fynd yn eu blaenau i ddysgu plant eraill yr ysgol a cychwyn clwb codio. Ond mae prif ffocws y tymor yma wedi bod ar Eisteddfod yr ysgol, ac roedd pawb yn awyddus i ddarganfod pwy fyddai'n cyrraedd y brig? Llongyfarchiadau mawr i'r holl ennillwyr eraill o bob un dosbarth a diolch arbennig i Miss Sian Davies am ddod atom i feirniadu y gwaith llenyddol. Braf oedd cael eich croesawu yn ôl i'r ysgol Miss Davies.

**SEREN**

**Pan rwyf yn edrych i fyny i'r nen**
**dwin gweld seren ddisglair yn serenu uwchben.**
**Breuddwydiaf am ei dal hi yn dynn yn fy llaw,**
**a mynd fyny i'r gofod sgwni beth ddaw.**

**Pan rwyf yn edrych i fyny i'r nos,**
**dwin gweld seren fach swil yn disgleirio yn dlos,**
**Gwelaf un seren yn sgleinio yn wych,**
**Yn union fel fi wrth imi syllu i'r drych.**

**Pan rwyf yn edrych i fyny ir gofod,**
**Mae'r miliynau o sêr yn edrych fel cawod,**
**Mae'r seren fach hon yn edrych mor llon,**
**Seren sy'n disgleirio ar y don.**

**Pan rwyf yn edrych i fyny i'r cymylau,**
**A phawb arall yn swatio yn glud yn eu gwlau,**
**Meddyliaf paham fod raid iddi fod mor bell,**
**Os fuaset yn agos buaset yn seren llawer gwell.**

**Gan - y llawr-xix**

Ennillydd y gadair eleni oedd Arthur Jones o flwyddyn 6.

# Ysgol Glan Clwyd

**NEWYDDION MAWR!! Wedi ennill lle yn y rownd derfynol yn yr UDA. Cynrychioli Cymru unwaith eto yn y gystadleuaeth @FLLUK @IETeducation**

Helo! Tîm Egni ydyn ni, tîm roboteg blwyddyn 9 o Ysgol Uwchradd Glan Clwyd yn Llanelwy. Rydym yn cystadlu yng nghystadleuaeth roboteg First Lego League™. Digwyddiad byd-eang yw hwn lle mae timau o blant 9-16 oed yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o heriau rhaglenni roboteg, dylunio, busnes a gwaith tîm yn seiliedig ar themâu gwahanol bob blwyddyn (y gofod eleni). Yn y gystadleuaeth, mae'n ofynnol i'r timau sy'n cystadlu, i gynllunio, adeiladu â rhaglen robot LEGO Mindstorms i ddatrys cyfres o deithiau yn seiliedig ar y thema a gynlluniwyd gan Lego™ er mwyn gwneud i blant feddwl. Yn ogystal, rhaid i dimau gynhyrchu prosiect yn seiliedig ar y thema.

Rydym wedi bod yn cystadlu yn y digwyddiad ers mis Ionawr. Ar ôl cystadlu yng nghystadleuaeth Rhanbarth Gogledd Cymru, ar 23ain Ionawr, cawsom ein gwobrwyo fel Cerdyn Gwyllt Cymru, ac yn dilyn hyn cawsom le yn rownd derfynol y DU ac Iwerddon ym Mryste ar 16eg o Chwefror. Buom yn gweithio'n galed iawn i wella ein safon ar gyfer rownd terfynol y DU ac Iwerddon, a chafodd y gwaith caled ei wobrwyo wrth i ni ennill y wobr tîm gorau yng Nghymru! Gyda'r wobr hon daeth gwahoddiad i gystadlu yn rownd derfynol Cynghrair y Byd Lego yn Detroit, Michigan, a gynhelir tua diwedd mis Ebrill! Ni yw'r unig dîm o Gymru i ennill unrhyw wobr ac felly rydym yn falch iawn o fod yn cynrychioli ein gwlad.

Mae hyn yn hynod o gyffrous i ni wrth gwrs, ac yr ydym yn edrych ymlaen yn fawr i gynrychioli ein hysgol, Ysgol Glan Clwyd ac wrth gwrs, Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r daith i Detroit yn mynd i fod yn rhad; mae angen talu am gostau teithio, llety ar gyfer 3 disgybl a 2 oruchwyliwr sy'n oedolion (gan gynnwys 1 athro). Rydym yn amcangyfrif cost o £10,000 am y cyfan.

Ni allwn godi'r arian heb gymorth cwmnïau a phobl fel chi. Fe fyddem yn gwerthfawrogi'n fawr unrhyw rodd neu nawdd, gan mai haelioni a chefnogaeth eraill fydd yn ein helpu i fynd i Detroit i gystadlu. Os oes gennych awydd ein cefnogi, cysylltwch â ni arteamegni@gmail.com i drafod.

Diolchwn yn fawr iawn i chi am gymryd yr amser i ddarllen y llythyr hwn, a gobeithiwn y byddwch yn cymryd diddordeb yn ein hachos!

Am ragor o wybodaeth am ein taith, edrychwch ar @teamegni ar Twitter (<https://twitter.com/team_egni?lang=en>) neu am wybodaeth gyffredinol am y rownd derfynol y byd<https://www.firstchampionship.org/> neu, gellid gweld fideo 2 munud byr yma<https://www.youtube.com/watch?v=pna7JZzmGJw>.

Yr gywir

Isaac, Jac, Thia - Tîm Egni 2019

**Llongyfarchiadau.** Mae tîmau pêl-droed merched blwyddyn 7+8 a 9+10 trwodd i rownd gyn derfynol cwpan ysgolion Cymru. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau dîm!! Croesi bysedd y bydd y genod yn mynd yr holl ffordd ac yn cyrraedd y ffeinal. Bydd tîm bl 7 a 8 yn cystadlu ar Ebrill 5ed yn erbyn Ysgol Bro Teifi

Diolch i wyth o genod bl.12 a 13 fu yn yr Uned Gancr Ysbyty Glan Clwyd yn canu caneuon Cymraeg ar gyfer Dydd Gwyl Ddewi.

**Llongyfarchiadau** i Elliw Pierce a Mali Elwy Williams ar ennill ysgoloriaethau i Brifysgol Bangor ac i Lili Clwyd Jones am ennill ysgoloriaeth i Brifysgol Aberystwyth.

**Taith Ysgol Glan Clwyd i CERN, Genefa**

Ym mis Chwefror, cefais i a fy nghyd-ddisgyblion o'r adran Gwyddoniaeth Driphlyg yn Ysgol Glan Clwyd y cyfle i fynd ar daith addysgiadol anhygoel i'r corff ymchwil CERN yng Ngenefa, Swistir. Roedd y daith hon yn un hynod o gofiadwy i bob un ohonom ni, gyda chymaint o gyfleoedd i ddysgu, ond hefyd i ddod yn agosach gydag ein cyd-ddisgyblion. Mi fyddaf yn ddiolchgar am gael y cyfle hwn am flynyddoedd i ddod.

Ar ddiwrnod cyntaf y daith, fe gawsom ni ddiwrnod ym Mharis i dorri y siwrne hir i Genefa, ac yno, aethom ni i ymweld â'r Museé Curie a'r Museé Pasteur er mwyn dysgu mwy am ddau o wyddonwyr hynod o bwysig o'r ddwy ganrif ddiwethaf a chyfoethogi ein haddysg wyddonol; cyfle gwych i ddysgu cyn gwerthfawrogi prydferthwch y ddinas, a'r Twr Eiffel enwog!

Ar ôl cyrraedd Y Swistir, treuliom ni un diwrnod yn gwerthfawrogi Genefa ac ymweld ag un amgueddfa arall: Amgueddfa Hanes Gwyddoniaeth Genefa - Amgueddfa arall hynod o ddiddorol, lle dysgom ni llawer am ddatblygiad dealltwriaeth dyn o wyddoniaeth. Cefais sgwrs gofiadwy gydag un o staff yr amgueddfa am hen ddynes Gymraeg a oedd yn byw yng Ngenefa yn ystod ei hoes, ac yn rhannu diwylliant ac iaith Cymru gyda'r bobl leol - stori a wnaeth fy niddori a fy nghysuro i glywed bod y Gymraeg o'n cwmpas ni ym mhobman, yn wir.

Dydd Llun y 25ain o Chwefror oedd diwrnod mwyaf gwerthfawr a chofiadwy'r daith i gyd: ymweliad a'r Cenhedloedd Unedig ac a'r corff ymchwil CERN ("Conseil Européen pour la Recherche Nucléaire" - Cyngor Ewropeaidd ar gyfer Ymchwil Niwclear), sef ymweliad mwyaf pwysig y daith i gyd. Roedd y ddau le yn hollol fythgofiadwy am resymau gwahanol: roedd adeiladau'r Cenhedloedd Unedig mor brydferth a hanesyddol, gyda phob ystafell llawn gwaith celf o bron i bob un o'r 193 cenedl sydd yn rhan o'r undod, tra bo CERN yn llai deniadol i'r llygaid, ond yn fwy i'r ymennydd, gyda chymaint o wybodaeth mor ddiddorol i amsugno o gwmpas yr holl le.

Mewn ffordd, mae'r Cenhedloedd Unedig a CERN yn ddau le gyda bwriadau gweddol debyg: i wneud y byd yn un heddychlon, a'i gadw fel yna, ond mewn dwy ffordd wahanol; un trwy'r gyfraith ac y llall trwy wyddoniaeth. Ac felly, gan ystyried hynny, mae'n hawdd dweud mai diwrnod o gyfoethogi ein gwybodaeth a dealltwriaeth am y byd a sut rydym yn ceisio edrych ar ei ôl oedd y diwrnod hwn, a theimlaf yn gryf iawn fy mod i a fy nghyd-ddisgyblion wedi gadael Genefa gyda meddyliau mwy agored i'r byd o'n cwmpas: llwyddiant llwyr i'r ysgol, ac i'r disgyblion! Diolch yn fawr iawn i Mrs Nicola Williams, ein hathrawes Bioleg, am drefnu'r daith fythgofiadwy hon i ni!

*Ffion Williams-Jones, Blwyddyn 11*

**Taith Yr Eidal**

**Taith astudio Daearyddiaeth i Fae Napoli, Vesuvuis ac Arfordir Amalfi, Yr Eidal.**

Yn ystod hanner tymor mis Chwefror, fe aethom fel disgyblion Daearyddiaeth a Hanes y chweched ddosbarth ar daith i Arfordir Amalfi yn yr Eidal. Ar ein diwrnod cyntaf, ymwelsom â Herculanum a Pompeii

sef dwy dref Rhufeinig wedi eu lleoli ar droed llosgfynydd Vesuvius, a gafodd eu dinistrio'n llwyr gan lifoedd pyroclastig. Roedd cael ymweld â'r safleoedd archeolegol hyn yn hynod o ddiddorol, gan fod hoel bywyd Rhufeinig yn weledol iawn yno, ac felly roedd modd deall sut oeddent yn arfer byw yn yr oes a fu. Ar ein hail ddiwrnod, aethom i ymweld â 'Fondo Galatea Working Farm', ble cafwyd y cyfle i fynd o amgylch y ffarm a chael gweld yr holl anifeiliaid, o'r moch a'r gwartheg, i'r asyn a'r paen. Cafwyd hefyd gyfle yno i flasu eu cynnyrch organig o gaws a ham parma, a chael creu pitsa. Yn ogystal, gwelsom drefi hardd Arfordir Amalfi, a chael gwledd o olygfeydd gogoneddus mewn taith bws. Ar ein diwrnod olaf, ymwelsom â Chaeau Sylffwr Solfatara, a'r safle hanesyddol 'Serapis Temple' ble y bu i dref ddisgyn islaw lefelau'r môr, cyn gorffen y daith yn gyrru o amgylch Napoli.

Elin Edwards (disgybl blwyddyn 13)

**Eisteddfod Ysgol**. Cafwyd Eisteddfod Ysgol llwyddianus yn ddiweddar i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Bu nifer o eitemau gwahanol gael eu cynnal yn ystod y dydd, ac roedd brwdfrydedd disgyblion bl 7 – 9 wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau yn amlwg o'r swn oedd yn dod o'r Neuadd yn ystod y prynhawn. Daeth Jade Davies – cyn ddisgybl i fewn i helpu Mrs Cartwright hefo beirniadu'r cystadleuthau. Ennillydd y Gadair eleni oedd Mali Elwy.

**PWY GEITH Y GIG?** Diolch yn fawr i'r disgyblion ddaru berfformio / clyweld ar gyfer y gystadleuaeth a'r rhaglen yma yn ddiweddar. Mae'r beirniaid bellach wedi edrych a gwrando ar lu o berfformwyr ar draws Cymru ac wedi dewis y 5 unigolyn oedd ei angen; Mae'n bleser medru llongyfarch Taliesin Liston-Smith Bl 10 ar gael ei ddewis yn un ohonynt. Mi allwn ddilyn taith Taliesin a'r band newydd yn y gyfres fydd ar S4C o fis Ebrill ymlaen.

**Taith Celfyddydau Mynegiannol i Lundain; Chwefror 2019:**
Ar fore braf ar gychwyn mis Chwefror cafodd 44 o ddisgyblion o Fl 9 - 11 fynd i Lundain er mwyn gwylio sioeau cerdd yn y West End gyda'r cynnwrf o gael aros mewn gwesty am noson!

Ar ól siwrne da, cyrhaeddon y gwesty, oedd ger awyrlu Heathrow, gyda'r awyrennau yn hedfan mewn mor mor agos pob munud. Aethom i mewn i ganol Llundain i gael pryd o fwyd a crwydro ychydig cyn y sioe. Digwydd bod, roedd hi'n wythnos dathliadau y flwyddyn newydd Tseiniaidd ac mi oedd Chinatown yn wledd i'r synhwyrau gyda'r addurniadau, y blodau, yr aroglau a'r prysurdeb.

Sioe y noson honno oedd addasiad Disney o stori 'Aladdin' (yn seiliedig ar y ffilm). Sioe wych gyda cast mawr a cymeriad y Genie yn cael ei chwarae gan yr Americanwr, Trevor Dion Nicholas yn anhygoel. Y disgyblion a'r staff ar eu traed ar y diwedd (fel gweddill y theatr) wedi wir fwynhau'r noson.

Bore wedyn, heb fawr o gwsg wrth gwrs, cawsom fynd ar daith ar yr olwyn fawr ger yr afon cyn cael ychydig o amser i sios yn ardal Covent Garden. Mewn dim, mi oedd yn amser am ein ail sioe "Everyboday's Talking About Jamie" - sioe gweddol newydd yn delio gyda themau o fwlio, hunan-ddarganfod a criw o bobl ifanc yn eu harddegau a'u helyntion. Roedd y sioe yma yn hollol wahanol i Aladdin ac yn gwbl wych mewn ffyrdd gwahanol. Y prif gymeriad yn cael ei chwarae yn arbennig gan Leyton Williams, a gyda Shane Ritchie o Eastenders yn y cast hefyd! Pawb ar eu traed eto ar y diwedd a wedi gwirioni.

Byddech yn tybio ar ól yr holl gynnwrf y byddai'r siwrne adref yn un tawel!! Ond na - siwrne hir gyda'r disgyblion yn canu y rhan fwyaf o'r 5 awr a hanner adref!

Dau ddiwrnod gwych gyda phrofiadau byth gofiadwy i'r disgyblion (a staff!).

**Big Bang Birmingham** – Bu 5 disgybl o fl 13 yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Big Bang yn Birmingham yn ddiweddar. Er na fu llwyddiant iddynt eleni – bu'r profiad yn werthfawr iddynt wrth symud ymlaen i'r colegau Addysg Bellach. Bydd disgyblion bl 12 yn cystadlu yn Llandudno diwedd mis Mawrth hefyd. Cewch eu hanes nhw fis nesaf.

**Llongyfarchiadau** i nifer o ddisgyblion yr ysgol a ddaeth i'r brig mewn cystadleuaeth siarad cyhoeddus Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Clwyd. Daeth criw Nantglyn yn fuddugol yn y ddwy gystadleuaeth darllen dan 14, yn y Gymraeg a'r Saesneg; criw Llannefydd guro ar y gystadleuaeth dan 16, a chriw Chwitffordd dan 21. Go dda chi gyd ar fynd ati i achub ar y cyfle i ddatblygu'r sgil bwysig hon, a phob lwc i'r rhai fydd yn cynrychioli CFFI Clwyd yn y gystadleuaeth genedlaethol yn Llanelwedd, sef Iestyn Thomason, Mali Ellis, Eben Pierce, Brychan Clwyd, Awen Evans, Fflur Evans, Miriam Owen, Idris Williams ac Elin Evans.

sir ddinbych denbighshire

Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.

Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

# PIBELLAU DREWDOD DINBYCH.

Tua blwyddyn yn ôl wnes i fwynhau darllen erthygl Rhys Mwyn yn yr Herald Gymraeg am bibellau drewdod. Cyn darllen yr erthygl doedd gen i ddim syniad o gwbl beth oedd y fath bethau, ond mae'n ymddangos mai pibellau ydyn nhw, wedi eu gwneud o haearn bwrw, wedi eu gosod gan amlaf yn oes y Frenhines Fictoria, er mwyn rhyddhau nwyon ac aroglau drwg o'r systemau carthffosiaeth. Maen nhw'n bibellau gweddol uchel, wrth reswm, ac yn debyg iawn i bolion lamp hen-ffasiwn, ac oherwydd hyn mae'n debyg fod y rhan fwyaf ohonom wedi cerdded heibio heb sylwi beth ydyn nhw. Fel nifer o bethau tebyg o Oes Fictoria, mae rhai o'r pibellau'n hynod addurnedig, gydag enw'r gwnethurwr fel arfer mewn man gweddol amlwg.

Ychydig ar ôl hyn, fe ymddangosodd Rhys ar raglen Aled Hughes ar Radio Cymru yn siarad am y pibellau ("Stinkpipes" neu "Stenchpipes" yn Saesneg) ac mae'n awyddus iawn i gasglu mwy o wybodaeth amdanynt, gyda'r bwriad o greu dogfen a map o bibellau drewdod Cymru, gan nodi eu lleoliad a'u gwneuthurwyr. Hyd y gwn i, does dim cofnod o rai yn Ninbych.

Ond dwi wedi dod ar draws dau yn y dref, un ohonynt rownd i gornel i ble mae Bryn, y mab, a'r teulu'n byw. Mae hwn ar Peake's Lane ar llall ar waelod Stryd y Dŵr. Dydy enw'r gwnethurwr ddim yn glir, ond dwi'n dyfalu mai "Beck & Co Limited London" sy'n gyfrifol am y ddau. Cysylltais â Rhys yn ddiweddar a'i ymateb oedd, "Byddaf yn gweithio ar y prosiect yma cyn bo hir - cwpl o jobs archaeoleg arall i'w gwneud dros y mis neu ddau nesa!"

Dwi'n eithaf sicr fod mwy o'r pibellau yn y dref a'r cyffiniau, felly beth am fynd allan i chwilio?! Os oes gan unrhyw un o'n darllenwyr fwy o wybodaeth neu luniau am y pibellau a'u gwneuthurwyr, byddwn yn hapus i'w derbyn drwy gyfeiriad ebost Y Bigwn neu johndavies744@btinternet.com

*John Davies*



Stryd y Dŵr Dinbych



Peake's Lane Dinbych

**YSGOLORIAETH R D HUGHES**

Mae gan ymddiriedolwyr y Sefydliad uchod y pwer i gynorthwyo myfyrwy Prifysgol:
(a) sydd wedi'u geni yn yr ardal sydd wedi'i chynnnwys yng Nghymuned Dinbych (h.y. Bwrdreistref Dinbych gynt)
NEU
(b) sydd â rhiant neu rieni a oedd yn preswylio yn yr ardal dan sylw adeg ei eni neu ei geni
NEU
(c) sydd ar ddyddiad dyfarnu'r ysgoloriaeth, â rhiant neu rieni yn preswylio yn yr ardal dan sylw ac sydd wedi preswylio yno am gyfanswm o ddeng mlynnedd o leiaf cyn y dyddiad hwnw.
Dylai myfyrwyr Prifysgol sy'n gymwys dan unrhyw un o'r penawdau wneud cais i Glerc Y Sefydliad, Mr J G Jones, 18 Llys Marchell, Dinbych LL16 4AR
(jones_john@btinternet.com) am ffurflen gais.
Yna dylid ei dychwelyd erbyn 30 Medi 2019

# Trem yn ôl

Gan fy mod, ers fy mhlentyndod, wedi fy mesmereiddio gan hanes lleol Dinbych, 'rwyf wedi casglu nifer o greiriau sy'n gysylltiedig â'r hanes hwnnw. Un eitem sydd wedi rhoi mwynhad arbennig i mi yw rhediad llawn o'r Faner ym 1857, sef blwyddyn gyntaf ei chylchrediad, y cwbl wedi ei rhwymo'n gyfrol daclus. Mae'r print yn hynod o fân – angen i mi ddefnyddio chwyddwydr i'w ddarllen.

Rhaid cofio mai ym 1808 y sefydlwyd y wasg gan Thomas Jones gyda chymorth Thomas Gee yr hynaf, sef tad y Thomas Gee. Lleolwyd y wasg yn Rhuthun yn wreiddiol ond ychydig fisoedd yn ddiweddarach, cafodd ei symud yma i Ddinbych. Daeth Thomas Gee yr hynaf yn berchen ar y fenter yn 1813 a dilynwyd ef gan ei ail fab, Thomas. Ym 1859 prynodd Gee bapur arall, Yr Amserau a'i uno gyda'r Faner ac fe ddaeth allan ddwywaith yr wythnos hyd 1814.

Ar ben hyn, 'roedd Gee yn berchennog ar nifer o fusnesau gan gynnwys Gwaith Haearn Bodfari, cwmni yswiriant a fferm.

Wedi ei farwolaeth ym 1895, ei fab Hywel etifeddodd y wasg a pharhaodd ym meddiant y teulu hyd 1914 ac wedyn aeth drwy sawl pâr o ddwylo gan gynnwys Dr Kate Roberts a'i gŵr Morus Williams ac wedyn Emlyn Evans. Erbyn heddiw mae'r busnes ar ben a'r adeiladau yn Lôn Swan yn wag.

Tra'n sganio'r gyfrol, teimlais efallai y byddai darllenwyr Y Bigwn yn hoffi clywed am yr hyn oedd yn mynd ymlaen yn Ninbych, cant chwe deg a dwy o flynyddoedd yn ôl. Dyddiad y cyhoeddiad cyntaf yw Mawrth 4ydd, 1857. Mae ambell i sillafiad a chystrawen yn wahanol i'n dulliau ni heddiw.

6ed o Fai – yn Llys Bwrdeisdref Dinbych; o flaen John Hughes, Ysw, Maer, a Dr Evan Pierce, cyhuddid Anna, gwraig Thomas Roberts, llafurwr a Margaret Ellis, merch ieuanc, o ladrata wyth punt oddi ar Ruth Hughes, o'r Ddwy Acar, ym mhlwyf Llanrhaiedr, o dan yr esgus o ddweud ffortiwn. Traddodwyd y ddwy garchores i gymeryd eu prawf yn y frawdlys chwarterol nesaf.

13eg o Fai – Dygwyd dau o bersonau amheus yr olwg o flaen ynadon Dinbych o dan y cyhuddiad o ladrata dillad oddi ar wrychoedd yn yr ardal. Traddodwyd hwy i dri mis o garchariad.

13eg o Fai – Y Sabbath diweddaf, cynnaliwyd cyfarfod dau fisol Undeb Ysgolion Sabbothol yr Annibynwyr. Yn y sessiwn cyntaf, holwyd y plant lleiaf mewn pennod o'r Rhodd Mam. Wedi hynny, traddodwyd cyfrifon y gwahanol ysgolion ac am chwech yr hwyr, cafwyd dair o areithiau gan John Roberts, Dinbych, Robert Evans o'r un lle ac yn ddiweddaf, Robert Ellis, Meusydd Brwyn.

Hysysiadau – Yn eisiau, egwyddorwas. Aeold gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Ymofyner â Mr Evans, Drysgist, Dinbych.

Dymuna Robert Ffoulkes, Dilledydd, Heol y Dyffryn, Dinbych, hysbysu ei fod newydd ddychwelyd o'r prif farchnadoedd gyda chasgliad o bob math o Frethynau, Bonetti a Hetiau a gellir gael ganddo siwt o frethyn da wedi ei gwneud am ddwy bunt a phum swllt.

10fed o Fehefin – Fel yr oedd John Davies, bachgen 14eg mlwydd oed, oedd yng ngwasanaeth Mr W Humphreys, Cotton Hall, yn dychwelyd o'r dref Ddydd Sadwrn diweddaf, dychrynodd ei geffyl trwy ryw foddion nes myned yn hollol aflywodraethus. Neidiodd y bachgen i lawr gyda'r bwriad o gydio yn ei ben, ond tarawyd ef gan yr olwyn ac aeth trosto yn y fan. Wedi hyn, dymchwelodd y drol a'r ceffyl. Codwyd ef gan Mr Brierly oedd yn dygwydd pasio ar y pryd a chymerwyd ef i dŷ cyfagos lle y bu farw ychydig oriau wedi'r ddamwain. Y rheithfarn yn y trengholiad ydoedd 'Marwolaeth ddamweiniol'.

24ain o Fehefin - Y mae yn hyfryd genym hysbysu fod gwneuthuriad y Ffordd Haearn, Dyffryn Clwyd wedi ei osod i Mr David Davies, Llandinam, Sir Drefaldwyn, am y swm o 21,650 punt sef 2,165 punt y filltir.

15eg o Orphenaf - Dydd Llun, penderfynodd ewyllyswyr da Ysgol Stryd Henllan roddi anrheg o de a bara brith i'r plant. Eisteddod 138 wrth y byrddau, yn lanwaith a threfnus – pob un ohonynt a'i lestr gydag ef.

19 o Awst- Barddoniaeth Clwydfardd i'r Ffordd Haearn Newydd –

Wele'r dywarchen lwyr dyrchwyd – â llaw,
Alluog fe'i cloddwyd
A gwych iawn a gychwynwyd
Rheillfordd Dyffryn Claerwyn Clwyd.

9fed o Fedi – Ysgol Sabbathol y Methodistiaid Wesleyaidd. Dydd Iau, o ddeutu dau o'r gloch, cyfarfyddodd holl blant yr ysgol hon yn y capel er ffurfio yr orymdaith i fyned i weled rhodfeydd a gerddi Mrs Mostyn, Segrwyd. Ond er fod y foneddiges garedig wedi paratoi ar eu cyfer, trodd y tywydd yn anffarfiol ac aethant i fyny i'r Ysgol Frytanaidd i chwarae am ychydig amser ac wedyn dychwelasant i'r capel i gyfranogi o de a bara brith.

16eg o Fedi – Dydd Gwener bu farw caseg wedd dda, eiddo Mr Owen, Lleweni. Agorwyd hi pan y cafwyd allan achos yr afiechyd. Oddi mewn i'r gwddf, cafwyd wy iar, yr hwn a lenwai y fan ac a attalai bob peth rhag rhyddfynedfa i'r ystumog. Cafwyd allan, wedi hynny ei fod wedi fod wedi ei roddi iddi gan un o'r gweision er mwyn, fel y tybiai ef, gwella yr anifail. Effaith ei garedigrwydd camsyniol oedd peri colled o 40 punt i'w feistr.

28ain o Hydref – Prisiau'r farchnad yn Ninbych - Gwenith, 121 swllt am 168 pwys; Haidd, 12 swllt am 147 pwys; Ceirch, 7 swllt am 105 pwys; ymenyn ffres, 14 ceiniog y pwys; gwyddau, 5 ceiniog y pwys; hwyaid, 3 swllt y cwpl; ieir, 2 swllt y cwpl.

18ed o Dachwedd – Prynhawn Dydd Gwener, ymgynnullodd nifer mawr o blant Ysgol Sul y Calfiniaid, ynghyd â chantorion y capel i gydyfed te yn yr addoldy. Am chwech o'r gloch cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus gyda'r amcan neillituol o gyflwyno pwrs o 5 punt i Mr Thomas Williams, blaenor y canu, am ei lafur a'i ffyddlondeb gyda chaniadaeth y cysegr am dair blynedd a deugain. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Gee.

30ain o Ragfyr – Yn y cyfarfod cyhoeddus, dywedodd Mr Biddulph fod bellach yn llawn bryd symud y Chwarter Sessiwn i Wrecsam a Dinbych bob yn ail gan fod tair rhan o bedair o'r carcharorion o'r lle cyntaf o'r ddau a bod Ffordd Haearn newydd Dyffryn Clwyd yn gwneud Dinbych mor fanteisiol mewn cymhariaeth i Rhuthyn. Cydsyniodd Syr Watkin ac eraill, ac yn ôl pob tebygolrwydd fe wneir y newidiad yn fuan.

R M (Bobi) Owen

# "HEDD WYN"

Yn sgil Seremoni Wobrwyo'r "Oscars" diweddar, mae cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau Cymraeg wedi ei roi i'r ffaith fod chwarter canrif (ie, chwarter canrif!) wedi mynd heibio ers y Seremoni ym 1994 pan enwebwyd y ffilm "Hedd Wyn" fel y Ffilm Orau mewn Iaith Dramor. Roedd yr actor a chwaraeodd y brif ran yn byw yn Ninbych ar y pryd, ac wedi bod yn aelod ffyddlon o Glwb Rygbi Dinbych. Yn y llyfr "Clwb Rygbi Dinbych – 40 Mlynedd o Rygbi" (copïau dal ar gael o'r Clwb!) fe nodir:

"Ym 1992 chwaraeodd Huw Garmon, oedd wedi bod yn fewnwr disglair i'r Tîm Cyntaf, y brif ran yn y ffilm 'Hedd Wyn', ac enillodd y ffilm sawl gwobr yn BAFTAs Cymru ym 1994, a chafodd Huw ei hun ei enwebu fel yr Actor Gorau. Cafodd ei enwi yr Actor Gorau gan y 'Festival International de Programmes Audiovisuels' (FIPA) yn Cannes yn yr un flwyddyn. Nid yn unig hynny, ond 'Hedd Wyn' oedd y ffilm gyntaf yn yr iaith Gymraeg i gael ei henwebu am Oscar – am Ffilm Orau mewn Iaith Dramor 1993."

A dyma oedd gan "Y Bigwn" i'w ddweud ar dudalen flaen rhifyn Chwefror 1993, cyn i'r ffilm gael ei henwebu am Oscar.

***Gol***


**APÊL MADAGASCAR**

***Capel Lôn Swan Dinbych***

**CAWL A CWIS**

Nos Iau Ebrill 11
am 7.00
**Tocynnau £5.00**
ar gael gan Aelodau'r Eglwys neu drwy ffonio
01745 812239


# HEDD WYN - ARWR CANNES

Actor ifanc o Ddinbych a enillodd y wobr am yr Actor gorau yng ngŵyl gyd-wladol FIPA d'Or (Festival International de Programmes Audiovisuels) yn Cannes am ei berfformiad yn y ffilm Hedd Wyn. Fel y cofiwch, fe welwyd y ffilm yma (cynhyrchiad Pendefig) ar S4C noson dathlu deng mlwyddiant y sianel ar Dachwedd 1af y llynedd.

Brodor o Ynys Môn yw Huw Garmon a chwaraeodd ran y bardd o fugail, Hedd Wyn. Bu'n fyfyriwr yng Ngholeg Drama Llundain ac mae eisoes yn hen gyfarwydd ag ymddangos mewn cyfresi teledu, ond Hedd Wyn oedd ei ffilm gyntaf. Ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda chwmni Hwyl a Fflag ym Mangor. Mae Huw a'i wraig Catrin wedi ymgartrefu bellach yn Ninbych. Braf yw gweld Cymry ifanc yn ymgartrefu yn y dref.

"Ces fy newis gyntaf", medd Huw, "oherwydd y tebygrwydd rhyngof â Hedd Wyn". Ond mae'n amlwg fod Huw wedi gwneud llawer o waith ymchwil cyn mynd ati i bortreadu'r cymeriad. "Mi fues i'n ymchwilio i mewn i hanes y cyfnod hefyd - cyfnod pan oedd taid a nain yn blant, a chael blas ar ddod i ddeall natur bywyd mewn cymdeithas Gymraeg, wledig".

Ond uchafbwynt y paratoi mae'n amlwg oedd "treulio holl gyfnod y ffilmio yn byw hefo teulu Bryn Celynog, Cwm Prysor. Dyma roddodd flas i mi ar acen Trawsfynydd, a'm cyflwyno i agwedd a hiwmor iach pobl yr ardal. Hoffwn i feddwl fod y ffilm yn destament i ymdrechion y gymuned Gymraeg yn y Traws ac i ffyniant y diwylliant Cymraeg yno".

Llongyfarchiadau i Huw Garmon. Ewch i weld y ffilm Hedd Wyn yn Theatr Clwyd, Mawrth 15-16. Edrychwn ymlaen at weld llawer rhagor o bortreadau gwych fel hyn gan actor ifanc sydd â dyfodol disglair o'i flaen.





# DIOGELU PLANT CYMRU

Yn ystod mis Mawrth cyhoeddodd Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, “Siarter ar Gyfer Newid – Diogelu Plant Cymru Rhag Effaith Tlodi”. Cewch ddarllen hwn yn ei gyfanrwydd ar y wefan:
https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/Siarter-ar-Gyfer-Newid-Diogelu-Plant-Cymru-rhag-Effaith-Tlodi.pdf
Un o’r sylwadau mwyaf trawiadol i mi oedd:
***“Mae hawl plentyn i addysg ar sail cyfle cyfartal … yn cael ei pheryglu mewn llawer o ffyrdd oherwydd y rhwystrau sylweddol mae teuluoedd yn eu hwynebu. Dyma rai o’r costau a nodwyd fel prif rwystrau:***
- ***Gwisg ysgol a’r cit Addysg Gorfforol***
- ***Prydau ysgol***
- ***Cyfarpar ysgol***
- ***Teithiau ysgol a chostau ychwanegol eraill ar hyd y flwyddyn ysgol, fel digwyddiadau arbennig”***

Ychydig cyn cyhoeddi’r Siarter, daeth datganiad i’r wasg gan Gyngor Sir Ddinbych sy’n hynod berthnasol.

***Gol***
*************************************

## TEULUOEDD YN ELWA AR WAITH Y CYNGOR A CHYNGOR AR BOPETH AR Y CYD YN SIR DDINBYCH

Mae ymagwedd partneriaeth tuag at gynorthwyo teuluoedd ar draws Sir Ddinbych gyda chefnogaeth ariannol a chyngor yn talu ar ei ganfed, diolch i gydweithio rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych.
Dros y blynyddoedd diwethaf, bu'n rhaid i'r Cyngor ddod o hyd i ffyrdd mwy effeithlon o weithio'n ariannol ac un o'r dulliau mwyaf arloesol fu'r bartneriaeth waith cadarn sydd wedi'i ffurfio gyda Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych ar faterion yn ymwneud â hawliau lles a Chredyd Cyffredinol.

Un o'r dulliau arloesol mwyaf diweddar oedd cynllun ailgylchu gwisg ysgol, a sefydlwyd i gynorthwyo teuluoedd i ddelio â chostau cynyddol gwisgoedd ysgol. Arweiniwyd hyn gan Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych ac fe'i cefnogwyd gan staff Cyngor Sir Ddinbych.

Yn ystod 2018, cynhaliwyd y cynllun yn Ninbych, Rhuthun a'r Rhyl a mynychodd dros bum cant o deuluoedd ddigwyddiadau. Darparwyd manylion dilynol i 300 o deuluoedd am gyngor; roedd disgwyl i gyfanswm o £125,000 mewn budd-daliadau heb eu hawlio cael eu canfod.
Cymerodd 18 ysgol ar draws y sir ran yn y cynllun gwisg ysgol a chafwyd ymateb cadarnhaol gan deuluoedd ledled Sir Ddinbych. Mae cyfanswm o 900 o blant ysgol wedi elwa o’r cynllun.

Mae'r Cyngor a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych hefyd wedi bod yn gweithio'n agos i gynorthwyo pobl â chyflwyno Credyd Cyffredinol yn Sir Ddinbych. Mewn tri mis yn unig, cynhaliwyd 133 o sesiynau Cymorth Cyllidebu Personol gan staff Cyngor ar Bopeth yn Sir Ddinbych, lle buont yn gweithio gyda phobl i adolygu eu hincwm a'u gwariant, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael gwybod am y broses Credyd Cyffredinol ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

Mae 100 o bobl hefyd wedi elwa o Gymorth Digidol Cynorthwyol sydd wedi'i gyflwyno trwy lyfrgelloedd a Siopau Un Alwad y sir. Mae'r sesiynau hyn gyda phreswylwyr yn sicrhau bod ganddynt fynediad i gyfrifiadur a fydd yn eu cefnogi i hawlio Credyd Cyffredinol ar-lein, gyda'r nod o gefnogi hawlwyr i reoli eu cyfrifon Credyd Cyffredinol yn annibynnol.

Dywedodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol y Cabinet dros Gyllid: "Mae hyn yn esiampl wych o waith partneriaeth ar ei orau. Mae gan y ddau nod cyffredin o gynorthwyo trigolion ar adegau o gyfyngiadau ariannol, gan sicrhau eu bod yn gallu derbyn y cymorth, y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.
“Wrth edrych ar ein sefyllfa gyllidebol ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd angen i ni ddod o hyd i fodel arall i ddarparu gwasanaethau o gwmpas hawliau lles a chaniatáu i bobl gael gafael ar grantiau a chyllid y mae ganddynt hawl iddynt. Mae'r ymagwedd newydd wedi bod yn llwyddiannus ac rydym wrth ein bodd bod trigolion Sir Ddinbych yn dal i elwa o'r bartneriaeth.
Dywedodd Lesley Powell, Prif Weithredwr Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, "Dechreuodd y fenter ailgylchu gwisg ysgol fel digwyddiad bach yn Ninbych dair blynedd yn ôl, mewn ymateb i ymchwil a wnaethom gyda theuluoedd yn Sir Ddinbych. Roedd yr ymchwil hwnnw'n nodi rhai pwysau ariannol allweddol yn ystod y flwyddyn ac roedd darparu gwisg ysgol yn broblem i rai. Eleni, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych, ysgolion a chefnogaeth elusennau lleol a chymorth busnes rydym wedi gallu ymestyn y prosiect, gan ein galluogi i gysylltu â mwy o deuluoedd a chynnig cymorth ariannol ychwanegol. Ein bwriad y flwyddyn nesaf yw mynd drwy'r sir.
"Rydym yn gallu darparu cefnogaeth gynhwysfawr a chyson i bobl trwy'r broses Credyd Cynhwysol, gan sicrhau bod pobl yn ei ddeall a'r opsiynau sydd ganddynt i sicrhau bod y budd-dal yn gweithio iddynt hwy, cymorth cyllidebu personol fel eu bod yn barod am eu taliad cyntaf. Gellir ei roi yn y Ganolfan Waith lleol yn y Rhyl, neu unrhyw un o'n naw swyddfa neu leoliadau allgymorth".

# Dyna gamp!

Styfnig? Penderfynol? Disgybledig? O, ydw. Mi rydwi'n gallu bod yn 'styfnig fel mul (holwch y wraig am dystiolaeth!) ac yn hynod o benderfynol ar brydiau, ond peth cwbl wahanol ydy'r busnes hunan-ddisgyblaeth 'ma.

Eto i gyd, dyma fi ymhell dros hanner ffordd drwy gyfnod y Grawys ac wedi byw yn gwbl ddi-siocled. Dim *Dairy Milk* na *Maltesers*, dim *Whole Nut* na *Galaxy*, dim *Mars* na *Kit Kat*, dim *Double Decker* na *Wispa*, dim *Toblerone* na *Yorkie,* dim *Quality Street* na *Roses.*

Dim bisgedan chocolate chip heb sôn am chocolate digestive. Dim hyd yn oed hufen iâ siocled..... na Magnum. Dim *diod o siocled* hyd yn oed.

Yn bendant, dim darn o siocled o un siop arbennig yn y dref sy'n cynhyrchu deunydd o safon bendigedig o uchel ac yn cael deg marc, Mark, allan o ddeg.

Dim ydy dim.

A fu hi'n anodd byw heb rywbeth sydd mor hanfodol a phleserus?

Do, ond ceffyl da ydy ewyllys ond bu'n rhaid dal y ffrwyn yn dynn ar adegau.

Chwennych. Gair da ydy hwnna. Dydwi ddim wedi chwennych siocled fy nghymydog mwy nag rydwi wedi chwennych ei dŷ, na'i wraig, na'i ych, na'i asyn.

Ydw i wedi llenwi'r bwlch efo danteithion eraill? Naddo, mewn gwirionedd.

Pam, meddech chi, y fath aberth?

Wel, fel aelod o'r Hen Gorff rydwi'n edmygu'r sylw a rydd yr eglwysi eraill i'r Grawys a'r syniad o hunanymwadiad.Felly beth am roi tro arni, meddyliais.

Mae aelodau eraill y teulu yn d'eud y byddai byw heb gaws yn fwy o aberth ganddyn nhw.Wel, fel un a fagwyd ar ambell driongl o Dairy Lea, fyddai hynny ddim yn fy mhoeni i o gwbl. Cewch gadw eich Caerffili a'ch Wensleydale.

Rŵan, rydwi'n edrych ymlaen at y Pasg a chael gloddesta ar wyau siocled, rhai mawr a rhai bach, rhai golau a rhai tywyll.

Pleser llwyr fydd y meddalu melfedaidd wrth gyfarfod â hen gyfaill ar ôl chwe wythnos o ymwrthod.

..........................................................

Fel llawer ohonoch, cefais fy magu mewn oes a roddai bwyslais ar ffyddlondeb a theyrngarwch.

Oes pan oeddech chi'n cael rhywbeth ychydig yn rhatach yn y siop ddillad leol am eich bod yn gwsmer da iddyn nhw. Ac, wrth gwrs, cael gwasanaeth o'r radd flaenaf gan y siopwr.

Bellach oes y chwiliwch a chwi a gewch ydy hi, ceisiwch ac fe roddir i chwi - yn arbennig pan ydych chi eisiau yswiriant ar y tŷ neu'r car.

Ac y mae'n gas gen i yr holl fusnes.

Rydach chi'n derbyn nodyn gan gwmni yn cynnig "y pris isaf fedrwn ni ei gynnig i chi."

Oherwydd eich bod yn un sydd eisiau bod yn deyrngar i'r cwmni hwnnw, rydach chi'n cysylltu â nhw ac mae'r dyn bach yn d'eud, "Gadewch imi weld beth alla' neud i chi."

Ac yna mae o'n cynnig gostyngiad i chi!

A nhwtha wedi d'eud mai'r pris gwreiddiol oedd yr isaf allen nhw'i gynnig.

Mae'r peth yn hurt bost.

Na, mae'n waeth na hynny. Mae'n anfoesol. Maen nhw wedi d'eud celwydd wrth rywun.

Cynnig arall yn dod gan y banc yn cynnig yswiriant ar y tŷ a'r cynnig hwnnw dros gant ac ugain punt yn rhatach na'r hyn oedd cwmni'r llynedd yn ei gynnig.

Wel, fedrwn i ddim gwrthod hwnnw, na fedrwn?

Mynd draw i'r Rhyl i drafod – dim cangen gan y banc yn Ninbych gwaetha'r modd – a'r dyn bach yno yn mynd drwy'r broses o ofyn ydw i angen cyfar ar gyfer yr hyn a'r llall.

Ac, wrth gwrs, rydwi'n ildio er gwaethaf y ffaith fy mod yn gweld y pris yn mynd yn uwch ac yn uwch gyda phob ychwanegiad.

Yn y diwedd mae gen i ugain punt yn fwy yn fy mhoced- wel yn y cyfrif banc mae o'n ei reoli,

Ond o gofio fy mod i wedi rhoi petrol yn y car a thalu am barcio, rydwi'n lwcus os ydw i ar f'ennill o ryw bymtheg punt.

Oedd o'n werth yr holl drafferth a'r tyndra? O gofio'r holl amser yn ffonio hwn a'r llall, ac osgoi'r ffŵl a wnaeth dorri ar fy nhraws ar gylchdro Rhuddlan, yr ateb yn bendant oedd "Na."

Cwmnïau trydan a nwy – cadwch draw, os gwelwch yn dda.

Mae'n well gen i dalu drwy fy nhrwyn na'r holl stryffig o wrando ar gerddoriaeth di-enaid am funudau di-ben-draw, cael fy nhrosglwyddo o hwn i'r llall ac yna ateb cwestiynau hurt megis beth oedd cyfenw fy mam cyn iddi briodi.

Fel y dywed y gân, on'd oedden nhw yn ddyddiau da...pan oedd ffyddlondeb a theyrngarwch yn rheoli a swyddfeydd lleol gan gwmnïau yswiriant, y bwrdd nwy a'r annwyl Manweb.

**Stan Lyall**



## Y Daran's a'r Penwaig

Yn rhifyn mis Chwefror o'r **Bigwn** trafodwyd blasenwau ar drigolion gwahanol drefi a phentrefi gan Bobi Owen.

Yn anffodus, meddai, nid oedd yn ymwybodol o flasenw ar drigolion dau le yng Ngwynedd, sef Nefyn a Llanberis.

Wel, **penwaig Nefyn** oedd yr enw roeddwn i'n gyfarwydd ag o, a hynny yn codi, mae'n debyg, oherwydd cysylltiad y lle â'r diwydiant pysgota.

Adwaenid tîm pêl-droed Llanberis fel y **Darans**. Yn wir, mae gan Arwel Hogia'r Wyddfa lyfr am y clwb sydd yn dwyn y teitl **Y Darans**.

Yn ôl Arwel cwyd yr enw o'r Beibl a'r hyn alwodd Crist ddau o'i ddisgyblion.

Gwelir hyn yn benodol yn Efengyl Marc, Pennod 3. adnodau 16 ac 17:

Felly y penododd y Deuddeg, ac ar Seimon rhoes yr enw Pedr; yna Iago fab Sebedeus ac Ioan brawd Iago, a rhoes arnynt hwy yr enw Boanerges, hynny yw "Meibion y Daran".

Haws o'r hanner, mae'n debyg oedd d'eud, "C'mon tha Darans" na C'mon the Boanerges" ac, wrth gwrs, roedd y Darans yn cyfleu i'r dim hogia Llanberis – tanbaid, abl a nerthol, chwedl Arwel.

Ac fe ddylai o wybod gan ei fod o'n gefnwr de tanbaid, abl a nerthol i'r clwb yn ystod ei oes aur yn y chwedegau. Byddai Glyn yr Acar yn cytuno â hynny, rwy'n siwr.

Fe fu yna ambell ornest gofiadwy rhwng y Darans a'r Penwaig dros y blynyddoedd, yn arbennig felly yn y cyfnod hwnnw, ac roedd gan y ddau glwb gefnogwyr brwd iawn, yn arbennig merched Nefyn a'u hambarels.

**Stan Lyall**

*Mae'n ymddangos fod Bobi dan yr argraff 'mod i'n un o Benwaig Nefyn, ond er i mi ymfalchïo yn etifeddiaeth fy nhad a'i gyn-deidiau, un o Gaernarfon ydw i. Felly Cofi neu Canêri amdani Bobi!!*

*A dwi'n weddol sicr fod Nain ddim yn un o "ferched yr ambarels" chwaith Stan!*

***Gol***

# COFIO TOM PRYCE

Mae cynllun ar droed i greu cofeb parhaol i'r seren rasio ceir Fformiwla 1, Tom Pryce, yma yn Ninbych, ac mae Cronfa Goffa eisoes wedi ei sefydlu.

Gweler isod grynodeb o ddatganiad i'r wasg a ddaeth gan Andrew Hughes o Trac Môn am ddatblygiad cyffrous i gefnogi'r Apêl.

***Gol.***

### CLWB CEIR RASIO HANESYDDOL I GOFIO TOM PRYCE YN YNYS MÔN

Bydd bywyd Tom Pryce yn cael ei ddathlu yn Trac Môn yng Ngogledd Cymru yr haf hwn (13-14 Gorffennaf) pan gynhelir cyfarfod rasio cyntaf Clwb Ceir Chwaraeon Hanesyddol ar y trac ysblennydd, er cof am y gyrrwr enwog Fformiwla 1.

Fe gyhoeddwyd ar Ddydd Gŵyl Dewi y bydd Cyfarfod Coffa Tom Pryce yn anrhydeddu'r gyrrwr hynod boblogaidd a ddaeth i enwogrwydd mewn gyrfa ddisglair Grand Prix a gafodd ei dorri'n fyr mewn damwain drasig yn Grand Prix De Affrica ym 1977.

Ym mis Gorffennaf, fe gynhelir cyfres o rasys ceir hanesyddol, y cyntaf i'w gynnal yng Nghymru yn anrhydeddu Tom Pryce, gyda rhaglen sy'n cynnwys rasys unigryw ar gyfer ceir Fformiwla Atlantic. Roedd Pryce yn seren rasys Fformiwla Atlantic wrth iddo godi i enwogrwydd, a bydd dwy ras Fformiwla Atlantic yn cael eu cynnal ar gyfer Tlws Tom Pryce.

Mae'r cynlluniau ar gyfer y digwyddiad yn symud ymlaen gyda sêl bendith gweddw Tom, Nella, sydd bellach yn byw yn Ffrainc. "Mae'n sicr yn syniad gwych i gofio Thomas yn y cyfarfod rasio hwn ac rydw i'n hollol o blaid hynny," meddai.

Yn ogystal ag anrhydeddu'r gŵr ifanc diymhongar hwn o Ogledd Cymru, bydd y penwythnos yn cefnogi'r gronfa goffa sy'n cael ei sefydlu i ddarparu cofeb parhaol i Tom yn Ninbych, tref sydd â chysylltiadau agos iawn â Tom.

Yn ôl ym 1970, enillodd Tom gar rasio Lola T200 mewn cystadleuaeth Daily Express, ac erbyn 1974 roedd yn rasio Fformiwla 1 ac yn cystadlu mewn Grand Prix dros y byd. Roedd wedi ei sefydlu'n un o brif yrrwyr Fformiwla 1 pan gollodd ei fywyd mewn ras yn Ne Affrica ym mis Mawrth 1977. Roedd Tom yn 27 mlwydd oed ar y pryd a byddai wedi cyrraedd ei ben-blwydd yn 70 oed ym mis Mehefin 2019.

Meddai Andy Dee-Crowne, Prif Swyddog Gweithredol y Clwb: "Rydym wrth ein bodd ein bod yn cymryd penwythnos llawn o rasio'r Clwb i'r trac ardderchog yn Ynys Môn am y tro cyntaf. Mae'n hollol briodol ein bod yn anrhydeddu bywyd Tom Pryce, arwr tawel o Ogledd Cymru a ddaeth i frig ei gamp. Mae cael y rasys Fformiwla Atlantic cyntaf a Formiwla Ford Hanesyddol ar y rhaglen yn creu y ddolen berffaith i flynyddoedd cynnar Tom".

siop siocled
01745 814864 dinbych
RWAN YN DERBYN ARCHEBION:
PARTION PLANT, NOSWEITHIAU MWYTHAU I'R ARDDEGAU/OEDOLION A BUSNESAU
* Partion Mwythau o £99
* Partion Siocled o £125
* Nosweithiau i Oedolion a Busnesau o £150
I sicrhau dyddiad i'ch parti ffoniwch 01745 814864
neu ebostiwch mark@denbighchocolateshop.com
Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com
YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN

# DATHLU DINBYCH 175

Eleni bydd clwb criced Dinbych yn dathlu 175 o flynyddoedd ers ei sefydlu ym 1844– carreg filltir go nodedig.Dyma un o’r clybiau criced hynaf yng Nghymru - os nad un o’r clybiau chwaraeon hynaf yn y wlad.Y bwriad ydy cynnal nifer o ddigwyddiadau yn ystod 2019 er mwyn dathlu’r achlysur. Ceir mwy o fanylion am hynny yn ystod y tymor, a fydd yn dechrau yn gynnar yn Ebrill eleni gyda gêm gartref yn erbyn Pwllheli ar faes hyfryd Ffordd Ystrad. Yn wir, bu’r degawd diwethaf yn gyfnod llewyrchus iawn yn hanes y clwb wrth iddo gyrraedd Uwchgynghrair Gogledd Cymru am y tro cyntaf yn ei hanes.Y mae nifer o dimau yn rhan o’r clwb bellach gan gynnwys yr ail dîm a thimau dan 11, 13 a 15 oed yn yr adran iau.Un a fu’n chwarae i’r clwb am ugain mlynedd bellach ydy Gerallt Lyall, a dyma rai o’i sylwadau am y cyfnod hwnnw a’i obeithion ar gyfer dyfodol y clwb.

**Beth ydy’r atgof cyntaf sydd gennyt am glwb criced Dinbych?**Dwi’n cofio mynd i’r clwb am y tro cyntaf efo ffrindiau o Ysgol Twm o’r Nant oherwydd bod tad Tom Schrimshaw yn chwarae i’r clwb.Fe ddaeth i’r ysgol i ddweud ei fod yn cychwyn tîm criced i blant o dan 11. Fy atgof o’r gêm gyntaf oedd cael llawer o hwyl, ond hefyd darganfod nad oeddwn i’n dda iawn am redeg rhwng y wicedi gan fod yn rhan o sawl digwyddiad lle roedd fy nghyd fatiwr yn cael ei redeg allan! (Byddai rhai o fy nghydchwaraewyr yn dweud nad ydy pethau wedi newid dim)

**Beth fu’r uchafbwyntiau iti yn ystod dy gyfnod yn chwarae i’r clwb?**Ennill Pencampwriaeth Cynghrair 1 Gogledd Cymru ar ddau achlysur, y tro cyntaf yn 2010 - pan gollodd y tîm 2 gêm yn unig – ac yna wedyn yn 2014. Roedd gorffen yn bedwerydd yn Uwchgynghrair Gogledd Cymru yn 2017 hefyd yn uchafbwynt. O ran llwyddiannau personol,wnai fyth anghofio cymryd ‘hat trick’ – tair wiced mewn tair pêl yn olynol - yn erbyn Castell Alun yn 2004 a minna’ yn fachgen ysgol 17 mlwydd oed . Yn ogystal roedd sgorio 125 heb fod allan yn erbyn ail dîm Llandudno yn deimlad anhygoel.

**Pwy fu’r dylanwad mwyaf arnat yn y clwb?** Heb os nac oni bai Dave Schrimshaw yw’r person sydd wedi cael y mwyaf o ddylanwad arnaf yn y clwb. Fo oedd fy hyfforddwr o 10 oed ymlaen nes imi orffen chwarae yn y timau ieuenctid. Oherwydd ei ymroddiad cefais gyfle i chwarae i dîm Gogledd Ddwyrain Cymru, ac mae ei ddylanwad yn un o’r rhesymau pennaf fy mod bellach yn hyfforddi timau ieuenctid y clwb.

**Beth ydy dy obeithion ar gyfer dyfodol y clwb?** Gobaith pennaf y clwb ydy’ gwella’r cyfleusterau chwarae sydd gennym ni, yn enwedig yr ystafelloedd newid a’r cyfleusterau ar gyfer y timau ieuenctid. Rwyf yn gobeithio y bydd y timau ieuenctid yn mynd o nerth i nerth.

**A thitha’ yn gydgordiwr yr adran iau, oes yna enwau y gwelwn ni nhw yn y timau hŷn o fewn tymor neu ddau?** Mae yna ambell enw sydd yn barod i dorri i’r timau hŷn dros y ddwy flynedd nesaf. Yn bennaf fe ddywedwn i Archie Sussex, James Thomas ac Ifan Tudor Jones. Mae’r tri efo potensial mawr iawn os wnawn nhw weithio yn galed yn y blynyddoedd i ddod.

Un a fu’n chwarae i’r clwbyn y gorffennol ydy’r hanesydd Bobi Owen. Dyma’i atgofion o:-

**Pryd oeddech chi’n chwarae?**Fe ddechreuais i chwarae yn ystod y tymor cyntaf ar ôl y rhyfel, sef 1946 -47. Roedd yn rhaid inni aros i’r bechgyn ddod adref o’r rhyfel cyn y gallem ddechrau chwarae eto.

**A oedd yna gynghrair yr adeg honno?**Na, doedd yna ddim cynghrair. Gemau cyfeillgar oedden nhw. Ond roedden nhw’n gystadleuol iawn. Roedden ni’n cael gemau diwrnod llawn ar ddyddiau gŵyl fel y Llungwyn, gyda thoriadau ar gyfer cinio a the. Mr a Mrs Parry, Dol Erw, fyddai yn gyfrifol am y bwyd bob Sadwrn. Fyddai yna byth gemau ar y Sul.

**Pwy oedd y gelynion pennaf?**Roedd y gemau mawr yn erbyn Bangor-tîm cryf iawn - Bae Colwyn, Llanelwy ac,wrth gwrs, Rhuthun.Roedd y ddau fowliwr cyflym i Fangor yn agor i Sir Gaernarfon a Gogledd Cymru.

**Beth oedd uchafbwynt eich gyrfa?**Rhannu partneriaeth o 150 a throsodd gyda Tordoff yn erbyn Liscard. Y fo yn y gêm honno yn cyflawni’r gamp o fod y cyntaf i sgorio cant dros y clwb, a minna’ yn y pen arall yn sgorio 64 heb fod allan, fy sgôr uchaf i’r clwb.

**Pwy oedd yr enwau amlwg yr adeg honno?** Roedd Bob Ef (Bob Evans) yn flaenllaw iawn, Huw Pritchard a Gwilym Hunphreys, bowlwyr cyflym a oedd wedi agor y bowlio i Ogledd Cymru, a Tordoff wrth gwrs.Gyda llaw, Glyn Roberts oedd y dyfarnwr, brawd-yng-nghyfraith Tordoff.Roedd yna droellwr gan Llanrwst - Walter Owen – oedd yn troi’r bêl lathen. Roedd o’n fowliwr roedd pawb ag ofn ei wynebu.

**A beth am y cit yn y dyddiau hynny?**Roedd pawb yn ceisio prynu’i fat ei hun, ond doedd hynny ddim yn bosib’i ambell un. Roedd padiau a menyg mor ddrud, a byddem ni’n mynd â phopeth i’w drwsio at J. Roberts sadlar, Stryd Y Bont.

***Rhagflas yn unig sydd yma. Cewch fwy o hanes y clwb criced yn y rhifynnau nesaf o’r Bigwn.***

## Gwefan Y Bigwn

Erbyn hyn mae gwefan newydd y Bigwn gyda ôl-rifynnau ar ffurf dogfennau PDF. Mae hefyd modd defnyddio y wefan i gysylltu â’r Bigwn. Gobeithiwn ychwanegu cyfleusterau eraill megis calendr digwyddiadau ac ati cyn bo hir.
I gael mynediad i’r wefan ewch i www.ybigwn.cymru

SIOP CLWYD

33 STRYD FAWR
DINBYCH
01745 813431



Llyfrau, Cardiau, Crynoddisgiau a Chrefftau

## CLWB PÊL-DROED DINBYCH

Wrth i'r tymor dynnu tua'i derfyn, mae Dinbych yn brwydro i aros yng Nghynghrair Huws Gray Cymru ar waelod y tabl. Collon nhw mewn gêm gartref yn erbyn Porthmadog ar ddiwedd mis Chwefror o 3-0, ble wnaethon nhw hefyd golli'r blaenwr lleol, Mark Roberts i gerdyn coch a oedd yn arwain at waharddiad o bedair gêm iddo.

Dilynwyd hyn gyda gêm oddi cartref i Guilsfield, lle rhoddodd Dinbych un o berfformiadau gorau'r tymor a dod oddi yno gyda buddugoliaeth o 1-0 gyda diolch i gôl gan Kristian Pierce.

Ers hynny, mae'r tywydd gwlyb dros yr wythnosau diwethaf wedi gorfodi Dinbych i ohirio dwy gêm gartref yn Central Park o fewn wythnos o ganlyniad i gae dwrlawn. Mae draeniad y maes wedi bod yn broblem ers sawl tymor bellach ac mae wedi gwaethygu'n ddiweddar. Rhaid canmol tirmon y clwb, Derek Hughes, am ei ymdrechion caled wrth baratoi'r cae ar gyfer gemau, ond does dim y gallai ei wneud i atal y tywydd gwlyb ar y cae.

Er mwyn amddiffyn y cae, penderfynwyd symud y gêm gartref yn erbyn Airbus i gae 3G ym maes Tegid, Y Bala.Ar brynhawn ofnadwy o wlyb, fe benderfynodd Storm Hannah ddisgyn ar Y Bala, ond fe roddodd y tîm arddangosfa wych ymlaen. Diolch i Kristian Pierce, fe aeth Dinbych ar y blaen yn gynnar wedi cic o'r smotyn ar ôl iddo gael ei ffowlio. Er hyn, fe ymatebodd Airbus drwy fynd ar y blaen o 3-1 cyn i Pierce sgorio ei ail gôl gan roi diweddglo cyffrous i'r gêm. Ni lwyddodd Dinbych i sgorio'r drydedd gôl ac felly colled oedd hi o 3-2 ond daethant o'r gêm yn galonogol gyda phum gêm yn weddill o'r tymor.

Maent ar hyn o bryd yn y bedwerydd safle o'r gwaelod yng Nghynghrair Huws Gray Cymru, saith pwynt o flaen Treffynnon sydd â dwy gêm ychwanegol i'w chwarae a Phenrhyn-coch sydd ag un gêm yn ychwanegol. Bydd tri thîm yn cael eu darostwng o'r gynghrair felly bydd y gemau nesaf yn dyngedfennol i Ddinbych.

Parhau mae'r Ail Dîm i ffynnu yng Nghynghrair Ail Dîm Lock Stock Cymru, wrth iddynt sefyll yn ail yn y tabl, saith pwynt y tu ôl i'r arweinwyr, Porthmadog. Mae'r tywydd gwael wedi effeithio ar eu gemau nhw hefyd gyda dim ond un gêm yn cael ei chwarae dros fis, sef buddugoliaeth o 2-1 gartref yn erbyn Llangefni gyda goliau gan Paul Williams a Siôn Jones. Hon oedd gêm olaf y tîm gartref y tymor hwn ac mae ganddynt bellach bum gêm oddi cartref yn weddill.

Gorffennodd Denbigh Development y tymor yn gadarnhaol gyda buddugoliaeth o 3-2 yn erbyn Llanfairfechan gyda dwy gôl gan Jon Slate. Hon oedd ail fuddugoliaeth y tîm y tymor hwn wrth iddynt orffen y tymor ar waelod Cynghrair Adran 1 Dyffryn Clwyd a Chonwy. Er hynny, dylai arweinwyr ifanc y tîm, Dan Whitfield ac Alex Douglas fod yn falch o'r tîm a'r ysbryd maen nhw wedi ei ddatblygu dros y tymor, a thrwy hefyd gyflwyno rhai o'r chwaraewyr i'r Ail Dîm, ac Owen Evans hyd yn oed yn cael ei gynnwys yn y Tîm Cyntaf.

PyBj

GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

Plaid Cymru | Party of Wales
Llyr Gruffydd AC

Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:
Llyr Gruffydd AC
Canolfan Fusnes Birch House
Hen Lôn Parcwr
Rhuthun
LL15 1HN
01824 703593
Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru
Yn gweithio dros y gogledd
@LlyrGruffydd
www.llyrgruffydd.cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

CEIR CLWYDIAN

Os ydych yn chwilio am
*brisiau cystadleuol
* dewis heb ei ail
* gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol
yna, galwch i'n gweld ar-

FFORDD RHYL, DINBYCH
neu ffoniwch
01745 816720 / 07900555009

# CLWB RYGBI DINBYCH

Gyda'r Tîm Cyntaf ar y blaen o 19-3 ar ddechrau'r ail hanner, y teimlad cyffredinol ar Faes Terry Bryer oedd fod y gêm yn saff i'r tîm cartref. Ond roedd neb wedi dweud wrth yr "Howgets" a frwydrodd yn ôl yn yr ail hanner i sicrhau buddugoliaeth haeddianol o 30-22, gyda'r maswr Gerwyn Thomas yn croesi am ddau gais ac yn trosi pedwar cais. Sgoriodd Garin Roberts a Tom Seddon gais yr un i Ddinbych, gyda'r blaenwyr yn sicrhau cais cosb. Wedyn daeth taith i'r Wyddgrug i chwarae efallai gêm bwysica'r tymor hyd yn hyn, yn erbyn tîm ar waelod yr Adran, dau safle'n is na Dinbych. Y tîm cartref reolodd y meddiant, ond llwyddodd Dinbych i sgorio pum cais yn erbyn llif y chwarae a sicrhau pwnt bonws. Y sgôr terfynol oedd 34 -3 gyda Tom Seddon yn croesi llinell ddwywaith.

Bu'n rhaid i'r Ail Dîm weithio'n galed i ennill yn Rhosllannerchrugog o 25-22, gyda chais yr un i Jonathan Morgan, Tom Evans, Andrew Wilson, Sion Spencer a Tom Wynne. Croesodd Aeron Waller, Dafydd Cernyw, Ethan Steele, Rowan Hughes a Ferdi Murray am gais yr un, gyda dau drosiad gan Owen Jones, wrth guro'r ymwelwyr o Fethesda o 29-21.

-----------------------------------------------

Chwaraewyd nifer o gemau yn erbyn Bae Colwyn gyda'r Tîm Dan 7 yn ennill o 11-8 a'r Dan 8 yn cael gêm gyfartal 7-7. Collodd y Dan 10 o 60-20 a'r Dan 11o 26-19, gyad Charlie McManus unwaith eto'n cael ei ddewis yn Seren y Gêm. Colli hefyd oedd hanes y Dan 12 o 50-0, ond cafodd y Dan 14 gwell hwyl arni gan ennill o 31-14.

Cafwyd gêm gyfartal 12-12 yn erbyn Bethesda i'r Dan 8 ar Gaeau Les Phillips a teithiodd y Dan 12 i Abergele ac ennill o 26-22, gyda chais i Charlie Williams wedi ei drosi gan Seren y Gêm Jac Moore yn yr eiliadau olaf yn setlo'r gêm.

Collodd y Dan 7 o 13-11 yn erbyn Rhuthun, gyda'r Dan 11 yn curo Caernarfon a 47-12. Sgoriodd yr efeilliaid Theo ac Isaac Jones ddau gais yr un a dewiswyd y Capten, Wil Jones, fel Seren y Gêm.

-----------------------------------------------

Efallai i chi fod yn ymwybodol, fel rhan o ddathliadau pen-blwydd diweddar y Clwb yn 40 mlwydd oed, ein bod wedi derbyn grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, ar yr amod ein bod yn:

- Cyhoeddi llyfr yn amlinellu hanes y Clwb
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol (e.e. Cyflwyniad yn Amgueddfa Dinbych, stondin yn Sioe Dinbych a Fflint)
- Cyfrannu at yr archif digidol "Casgliad y Werin Cymru ".

Mae'r ddau amod cyntaf eisoes wedi'u cyflawni, ac yn ddiweddar rydym wedi cychwyn ar y drydedd dasg o gyfrannu at yr archif. Mae grŵp bach o wirfoddolwyr wedi canolbwyntio'n bennaf ar flynyddoedd cynnar y Clwb hyd yn hyn, a gellir gweld eu gwaith ar:
https://www.casgliadywerin.cymru/discover/query/rygbi%20dinbych (Cymraeg)
neu
https://www.peoplescollection.wales/discover/query/rygbi%20dinbych (Saesneg)

Os oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud, neu fod gennych unrhyw ffotograffau, toriadau o'r wasg, hanesion personol, ayyb, sydd efallai yn addas i'w cynnwys, cysylltwch â John Davies ar 01745 812239 neu johndavies744@btinternet.com neu siaradwch ag unrhyw Swyddog o'r Clwb.

-----------------------------------------------

Daeth y newyddion i law mai Steve Fenwick fydd y siaradwr gwadd yng Nghinio Blynyddol y Clwb ar Fehefin 8fed. Chwaraeodd Steve fel canolwr yn y 70au a'r 80au. Roedd yn daclwr ffyrnig ac yn giciwr o fri. Cynrychiolodd Penybont, Cymru a'r Llewod cyn troi'n broffesiynol a chwarae Rygbi'r Gynghrair i'r Dreigiau Gleision ym Mhenybont/ Caerdydd ac hefyd i Gymru.

-----------------------------------------------

Ac wrth gwrs: DA IAWN CYMRU AR ENNILL Y GAMP LAWN!!!!!!!!!!!!!!!!!

*John Davies*

**Hysbysebion**

| | |
|---|---|
| 4cm x 4cm | £3.00 |
| 9cm x 4cm | £6.00 |
| 9cm x 7cm | £10.00 |
| ¼ tudalen | £15.00 |
| ½ tudalen | £25.00 |
| Tudalen Llawn | £50.00 |

Morgeisi
CARTREF
Mortgages
Cyngor Morgais Di-Ffi
Cynnyrch y Farchnad Gyfan ar gael
Gwasanaeth Dwyieithog
Symud Tŷ | Prynu | Ailforgeisio
Gwasanaeth Proffesiynol, Gonest a Chyfrinachol
Ffoniwch neu E-bostiwch Rhodri Sellers
0782 8824596 Rhodri@cartrefmortgages.co.uk

Daniel Morris
CIGYDD LLEOL
01745 812585
info@dmorrisbutchers.co.uk
www.dmorrisbutchers.co.uk
124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS






Dilwyn Jones, yn cyflwyno tystysgrifau i Louisa Roberts, Pennaeth Ysgol y Parc, a Llinos Davies o Lyfrgell Dinbych. (Tud 15)



**Y Clwb Gosod Blodau**

Yr arddangoswraig Sylvia Bower (ar y chwith) ac un o'i gosodiadau (ar y dde)

(Tud 9)







Dathliad Dewi Sant Dosbarth Uwch Nerys Ann yn Festri'r Capel Mawr (Tud 8)




Ffotograffiaeth Tony Griffiths – yr ail wobr (Tud 13)



Y Siop Siocled – y drydedd wobr



Jake Walker yn ymosod yn erbyn Porthmadog gyda chymorth Mark Roberts



Dan Lloyd yn clirio'r bêl yn erbyn Airbus



Dau gyflwynydd newydd?

Est 1844
CLWB CRICED
DINBYCH

yn dathlu 175 mlynedd

(Tud 32)



Aled, OTJ, Dylan a Iolo



Tîm Dan 11 Clwb Rygbi Dinbych a'u Hyfforddwyr



Car Rasio Fformiwla 1 Tom Pryce, sef Shadow DN3, ar Drac Môn. FFOTOGRAFFYDD:- ROB THOMAS